Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth

## Adroddiad Blynyddol 2018-2019

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38314 ISBN 978-1-83876-574-3

# Cynnwys


1. Crynodeb ..... 3
2. Cyflwyniad ..... 3
3. Yr Hyn Rydym Wedi'i Gyflawni ..... 5

Gwasanaethau Asesu a Diagnostig ..... 5

Mynd i'r Afael ag Anghenion Cymorth - Cod Ymarfer ..... 6

Trawsnewid addysg anghenion dysgu ychwanegol ..... 7

Cymorth ar gyfer Cyflogaeth ..... 7

**Tabl 1. Ystadegau penodol i Bobl Ifanc sydd wedi cael diagnosis o ASD (gan gynnwys fel cyflwr cydafiachedd).** Grant Ar y Blaen 2 ..... 12

Cyflyrau sy'n cydfodoli ..... 12

Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol (IAS) ..... 13

Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant ..... 13

Casglu data ..... 14

4. Yr hyn a ddywedwyd wrthym ..... 15

5 Polisi Awtistiaeth - Argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau ..... 17

6 Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud ..... 35

Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth ..... 35

Cynllun Gweithredu Strategol ASD - Cynllun Cyflawni ..... 36

Atodiad Un: Diweddariad Cynllun Cyflawni ASD ..... 37

**Asesu a Diagnosis** ..... 37

**Mynd i'r afael ag Anghenion Cymorth** ..... 39

**Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant** ..... 45

**Cynllunio, Monitro a Chynnwys Rhanddeiliaid** ..... 47

Atodiad Dau - Crynodeb o Adroddiad Blynyddol CLlLC ..... 49

Atodiad Tri - Geirfa ..... 61

**Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig - Adroddiad Blynyddol 2018/19**

# 1. Crynodeb

1.1 Mae'r ail adroddiad hwn ar gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2016 yn ymateb i'n hymrwymiad i ddarparu diweddariad blynyddol ar y cynnydd rydym yn ei wneud. Mae'r adroddiad yn trafod pob un o'r tri maes blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Strategol:

- Asesu a Diagnosis.
- Mynd i'r afael ag Anghenion Cymorth.
- Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant.

Yn ogystal, mae'r adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Gweithredu Strategol trwy adolygu *Yr Hyn Rydym Wedi'i Gyflawni*, ymateb i *Yr Hyn a Ddywedwyd Wrthym* ac amlinellu *Yr Hyn y Byddwn Ni'n ei Wneud.*

1.2 Mae'r tabl yn **Atodiad un** yn rhoi crynodeb o gynnydd yn erbyn pob cam gweithredu a amlinellir yn y cynllun cyflawni sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Strategol. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.

1.3 Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd ag adroddiad blynyddol y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, mae'r crynodeb yn **Atodiad dau,** mae'r adroddiad llawn yn rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos o welliannau a gyflawnwyd.

# 2. Cyflwyniad

2.1 Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig newydd[1] a ddatblygwyd mewn ymateb i'r hyn mae pobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr wedi dweud sy'n bwysig iddyn nhw. Nod y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol newydd yw:

**Y bydd anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ar y sbectrwm awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu deall, ac y byddant yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau lles.**

2.2 Wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Strategol, fe weithion ni gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i nodi themâu allweddol a chamau gweithredu blaenoriaeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant ac oedolion ag awtistiaeth. Nodwyd tri maes blaenoriaeth.

- Asesu a Diagnosis.

[1] https://llyw.cymru/anhwylder-y-sbectrwm-awtistiaeth-cynllun-gweithredu-strategol-2016?_ga=2.218656985.1991398874.1561666773-881363834.1547048528

- Mynd i’r afael ag Anghenion Cymorth.
- Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant.

2.3 Rydym yn gweithio gyda’n partneriaid i gyflawni’r ymrwymiadau uchelgeisiol rydym wedi’u gwneud, gan fuddsoddi £13 miliwn mewn gwasanaethau integredig newydd. Rydym yn gwneud cynnydd da ond yn cydnabod y bydd hi’n cymryd amser i gyflawni pob un o’n cynlluniau i wneud gwelliannau hirdymor. Byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu ein cynnydd, gan weithio gydag asiantaethau cyflawni a phobl awtistig i sicrhau bod y buddsoddiadau rydym yn eu gwneud wir yn cyflawni’r canlyniadau mae pobl awtistig eisiau eu gweld.

2.4 Mae’r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (y Tîm Datblygu ASD Cenedlaethol yn flaenorol) sy’n cael eu cynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gefnogi’r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau awtistiaeth. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno’r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, a chynhyrchu amrywiaeth eang o adnoddau ar y cyd â rhanddeiliaid sydd ar gael ar y wefan asdinfowales.co.uk. Mae gwaith gwerthfawr y tîm wedi’i ariannu hyd at 2022 o leiaf.

2.5 Mae crynodeb o adroddiad blynyddol y Timau Awtistiaeth Cenedlaethol wedi’i atodi yn **Atodiad dau**, mae’n arddangos ehangder y gwaith mae’r tîm yn parhau i ymgymryd ag ef. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi ar wahân gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn 2018-19, fe wnaeth y wefan NAT ddenu cynnydd o 62% mewn defnyddwyr o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol, gyda chyfartaledd o 10,575 o ddefnyddwyr y mis - cynnydd o dros 3,500 o ddefnyddwyr ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r tîm hefyd wedi llunio strategaeth Ymgysylltu ar gyfer 2019[2] sy'n nodi'r ffyrdd y gall cyd-gynhyrchu lunio a llywio rôl y tîm cenedlaethol. Mae’r prosiectau hyd yma yn cynnwys ffilm i Rieni a Gofalwyr, cyngor ar Dai a Chynhadledd Awtistiaeth Genedlaethol Cymru a gafodd ei gwerthfawrogi a’i chefnogi’n eang. Mae'r tîm wedi gweithio ar Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith a bydd y ddau gynllun hyn yn cael eu cyflwyno yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20. Mae'r rhain wedi eu cyd-gynhyrchu gyda Cholegau Cymru, colegau Addysg Bellach, dysgwyr awtistig a'u rhieni ar draws Cymru. Cyd-gynhyrchwyd y Dysgu Seiliedig ar Waith gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Arweinydd ASD ac Associated Community Training Limited (ACT).

2.6 Yn gyffredinol, dyma’r cyflawniadau allweddol yn ail flwyddyn rhoi Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru a’r Cynllun Cyflawni ar waith:

[2] https://www.asdinfowales.co.uk/resource/Engagement-and-Participation-Strategy-march-19_final.pdf

- Mae'r amser aros targed o 26 wythnos am asesiad niwroddatblygiadol, gan gynnwys ASD ar gyfer plant a phobl ifanc yn ei le. Cychwynnwyd casglu data ym mis Tachwedd 2017 a bydd ar gael ar **statswales**.gov**wales** maes o law.
- Mae llwybrau a safonau diagnostig niwroddatblygiadol a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc ar waith ac wedi'u mabwysiadu gan bob bwrdd iechyd i raddau amrywiol.
- Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol (IAS) wedi cael ei gyflwyno ledled Cymru. Mae timau IAS bellach yng Nghaerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Gwent, Powys, Gogledd Cymru, Bae'r Gorllewin a Gorllewin Cymru.
- Cafodd y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018[3] Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2017 a bydd yn cael ei rhoi ar waith ddiwedd 2020.
- Mae'r Grŵp Cynghori ar Weithredu ASD a ddatblygwyd i fonitro cynnydd a gwaith cyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol yn parhau i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn.
- Cafodd adroddiad gwerthuso annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Strategol / IAS[4] ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2019.
- Cymorth parhaus ar gyfer y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, sy'n cael ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol, yn enwedig y gwaith o gyflwyno'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Mae cyllid ar gael hyd 2022 o leiaf.
- Mae'r ymgynghori ar ddatblygu Cod Ymarfer ar gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth yng Nghymru[5] wedi'i gwblhau a bydd yr adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2019. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda datblygiad y Cod, bydd y drafft yn cael ei gyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2020.
- Bydd estyniad i'r gwerthusiad IAS annibynnol, syn adolygu'r aliniad rhwng gwasanaethau awtistiaeth a niwroddatblygiadol a rhwystrau i leihau amserau aros yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf hwn.

## 3. Yr Hyn Rydym Wedi'i Gyflawni

*Gwasanaethau Asesu a Diagnostig*

3.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod teuluoedd angen mynediad at wasanaethau asesu a diagnostig amserol a bod amseroedd aros wedi bod yn rhy hir mewn rhai ardaloedd. Ers 2015, mae £2 filiwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddarparu bob blwyddyn i fyrddau iechyd er mwyn sefydlu gwasanaethau pwrpasol i blant a phobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol, gan gynnwys awtistiaeth ac Anhwylder Diffyg

[3] https://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/contents/enacted
[4] https://llyw.cymru/gwerthusiad-gwasanaeth-awtistiaeth-integredig-cynllun-gweithredu-strategol-anhwylderaur-sbectrwm-awtistig-terfynol?_ga=2.248233799.1991398874.1561666773-881363834.1547048528
[5] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-11/Dogfen%20ymgynghori.pdf

Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD). Mae'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu gan ffrwd waith niwroddatblygiadol Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

3.2 Mae ffrwd waith niwroddatblygiadol Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cynnwys clinigwyr, aelodau o'r 3ydd sector a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r grŵp yn parhau i ddatblygu canllawiau Cymru gyfan i wella'r ffordd mae gwasanaethau niwroddatblygiadol yn cael eu darparu.

3.3 Ers cyhoeddi Llwybr a Safonau Niwroddatblygiadol Cymru Gyfan[6], yn 2016, mae'r grŵp wedi:

- Cynhyrchu fframwaith canllawiau cenedlaethol sy'n gysylltiedig â chwestiynau meintiol ac ansoddol.
- Cynhyrchu canllawiau cenedlaethol ar gyfer ail farn / ail-asesu mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol.
- Darparu cyngor arbenigol ar greu pecyn cymorth i glinigwyr ar gyfer awtistiaeth a phecyn cymorth ar wahân i glinigwyr ar gyfer ADHD.
- Rhoi cyngor ar gyfer canllawiau sector ar draws y Llywodraeth gan ddarparu mewnbwn i ddogfen canllawiau newydd i rieni sy'n addysgu eu plant gartref ar sut i fanteisio ar wasanaethau niwroddatblygiadol.

3.4 I fonitro gwelliannau yn y gwasanaeth, mae safon amser aros newydd o 26 wythnos wedi'i rhoi ar waith, gan fesur yr amser aros rhwng yr atgyfeiriad a'r apwyntiad cyntaf, sydd yn unol â gwasanaethau pediatrig eraill. Disgwylir y bydd 80% o'r apwyntiadau asesiad cyntaf yn cael eu cynnal cyn pen 26 wythnos. Bu rhai heriau i weithredu hyn yn llwyddiannus o ganlyniad i systemau rhestr aros hanesyddol oedd ar waith. Ar hyn o bryd Byrddau Iechyd yn gweithio ar ansawdd eu mecanweithiau casglu data ac adrodd yn y gwasanaeth hwn. Bydd y data yn cael ei chyhoeddi ar y ar wefan statscymru[7] maes o law.

3.5 I oedolion, mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig[8] bellach ar gael ym mhob ardal yng Nghymru, yn darparu gwasanaethau asesu a diagnosis ar gyfer oedolion. Bydd trafodaethau ynghylch gosod safon amser aros i oedolion yn unol â phlant a phobl ifanc yn parhau. Rydym yn cydnabod y bydd rhoi safon ar waith ar yr adeg hon yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau sy'n dal i gael eu hymgorffori mewn nifer o ardaloedd. Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer cod ymarfer awtistiaeth yn cynnwys cynigion ar gyfer gwelliannau i wasanaethau diagnostig.

*Mynd i'r Afael ag Anghenion Cymorth - Cod Ymarfer*

[6] https://www.asdinfowales.co.uk/resource/T4CYP_Neurodevelopment-Diagnostic-Assessment-Pathway.pdf
[7] https://statswales.gov.wales/Catalogue
[8] https://www.asdinfowales.co.uk/integrated-autism-service-2

3.6 Yn ystod 2018/19 fe wnaeth Bill Awtistiaeth (Cymru) dan arweiniad Aelod Cynulliad amlygu profiadau pobl awtistig a'u rhieni a gofalwyr wrth geisio cael mynediad at wasanaethau asesu a gwasanaethau cefnogi. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi deddfwriaeth awtistiaeth benodol, gwnaed ymrwymiad i wella gwasanaethau awtistiaeth drwy ddatblygu cod ymarfer statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006 fydd yn gosod dyletswyddau ar wasanaethau statudol i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu haddasu i ddiwallu eu hanghenion penodol. Rydym wedi ymgynghori ar ein cynigion, llawer ohonynt sy'n adlewyrchu'r darpariaethau yn y Bil. Mae gwybodaeth bellach ar yr adborth a dderbyniwyd o'n hymgynghoriad wedi'i nodi yn adran pedwar.

*Trawsnewid addysg anghenion dysgu ychwanegol*

3.7 Rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n amlinellu system newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn creu fframwaith cyfreithiol unedig ar gyfer Cymru a fydd yn rhoi dysgwyr, a'u rhieni a'u gofalwyr wrth graidd y broses o nodi eu hanghenion a chynllunio sut i'w diwallu. Bydd y system newydd yn sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac yn gallu cyrraedd ei botensial llawn. Bydd y gwaith o gynllunio a darparu cymorth i ddysgwyr 0-25 mlwydd oed ag ADY yn cael ei wella, gan roi blaenoriaeth i anghenion, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau dysgwyr, gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd nodi anghenion yn gynnar a chyflwyno ymyriadau amserol ac effeithiol sy'n cael eu monitro a'u haddasu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Mae'r rhaglen Trawsnewid ADY[9] yn canolbwyntio hefyd ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu addysg, i sicrhau cymorth effeithiol i ddysgwyr ag ADY yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â mynediad rhwyddach at gymorth, gwybodaeth a chyngor arbenigol.

*Cymorth ar gyfer Cyflogaeth*

3.8 Rydym yn cydnabod bod llawer o oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith a chadw swydd. Fel rhan o'n dull cenedlaethol o wella canlyniadau cyflogaeth, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei Gynllun Cyflogadwyedd ym mis Mawrth 2018[10]. Roedd y cynllun hwn yn cyflwyno strategaeth uchelgeisiol i greu gweithlu tra hyfforddedig a chynhwysol, un a all ymateb yn effeithiol i anghenion sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol, ac addasu'n dda i ddyfodol gwaith. Yn ganolog i'r uchelgais hwn, rydym wedi ymrwymo i helpu pawb i gyflawni

[9] https://llyw.cymru/rhaglen-trawsnewid-anghenion-dysgu-ychwanegol?_ga=2.211917012.1991398874.1561666773-881363834.1547048528

[10] https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/180319-employability-plan-cy.pdf

eu llawn botensial drwy gyflogaeth ystyrlon, beth bynnag fo'u gallu, materion iechyd, cefndir, rhywedd neu ethnigrwydd. Rydym yn cefnogi pobl nad ydynt yn gweithio gyda phwyslais arbennig ar y rhai sy'n economaidd anweithgar ac yn llai tebygol o fod mewn cysylltiad â chymorth cyflogaeth yn y brif ffrwd. Rydym yn gwybod bod gwaith yn dda ar gyfer unigolion ac mae tystiolaeth glir y gall bod mewn gwaith da hybu iechyd a llesiant. Rydym eisiau i'n rhaglenni cyflogadwyedd fod yn hygyrch i bawb, ac rydym yn ystyried effaith ein rhaglenni ar y rhai ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor yn ystod y cyfnodau dylunio, cyflwyno a gwerthuso.

Mae'r cynllun yn gweithredu ar bedair thema gwahanol;

- darparu cymorth ar gyfer cyflogaeth wedi'i deilwra i'r unigolyn,
- pwysleisio cyfrifoldeb cyflogwyr i gefnogi staff,
- cau bylchau sgiliau,
- paratoi ar gyfer marchnad lafur sy'n newid yn aruthrol.

Mae cymorth wedi'i deilwra i'r unigolyn yn rhoi ymreolaeth a hyblygrwydd i gynghorwyr fynd i'r afael ag anghenion, cryfderau ac uchelgeisiau'r person sy'n paratoi ar gyfer gwaith.

3.9 Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud i leihau cymhlethdod ein model cyflawni cyflogadwyedd presennol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion.

Bydd 'Cymru'n Gweithio[11]', y gwasanaeth cyngor ar gyflogadwyedd newydd ar gyfer Cymru yn cael ei lansio ym mis Mai 2019. Bydd y gwasanaeth cenedlaethol newydd, a ddarperir gan Gyrfa Cymru, yn ei gwneud yn haws i bobl gael cyngor, arweiniad a chefnogaeth broffesiynol ar yrfaoedd, yn seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn. Mae Cymru'n Gweithio yn gweithredu fel pwynt mynediad cenedlaethol i gefnogaeth ar gyflogadwyedd, sy'n cefnogi ac yn ategu sianelau presennol sydd ar waith mewn rhanbarthau, ac sydd wrth wraidd cymunedau. Mae'n cyflawni ein hymrwymiad i ddarparu wedi'i deilwra i'r unigolyn o ran cefnogaeth cyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc ac oedolion, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, er mwyn ei gwneud yn haws i fanteisio ar y cymorth sydd ei angen i symud ymlaen tuag at gyflogaeth.

3.10 Rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n gweithio ac rydym yn gweithio gyda sefydliadau cynrychiadol i greu amrywiaeth eang o gamau gweithredu wedi'u targedu. Mae cefnogaeth cyflogadwyedd yn parhau trwy raglenni sy'n bodoli eisoes gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys ReAct[12], Twf Swyddi Cymru[13],

---

[11] https://workingwales.gov.wales/
[12] https://llyw.cymru/react-i-unigolion?_ga=2.18462713.1991398874.1561666773-881363834.1547048528
[13] https://www.careerswales.com/cy/swyddi-a-hyfforddiant/chwilio-am-swydd/chwilio-am-gyfle/beth-yw-twf-swyddi-cymru/

Mynediad[14], Hyfforddeiaethau[15] a'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd[16]. Yn ogystal â hyn, rydym wrthi'n caffael rhaglen cymorth cyflogadwyedd newydd. Bydd Cymorth Swyddi Cymru yn lansio ym mis Ebrill 2020, a bydd yn cefnogi pobl o bob oed i oresgyn rhwystrau i gael a chadw gwaith o ansawdd da, sy'n gynaliadwy.

3.11 Rydym yn cydnabod y bydd strwythurau a diwylliant ehangach gweithleoedd yn cael effaith uniongyrchol ar gyflogadwyedd pobl anabl neu'r rhai â nodweddion gwarchodedig, ac na all cyflogadwyedd ymwneud â chymorth i unigolion yn unig. Rydym eisiau cynyddu nifer y cyflogwyr sy'n rhoi pwyslais ar greu gweithleoedd sy'n amgylcheddau cynhwysol a chefnogol i bobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor.

3.12 Drwy'r Contract Economaidd, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr i hyrwyddo ymddygiadau arfer gorau, cyflymu camau i gefnogi recriwtio, cadw gweithwyr, iechyd a lles yn y gweithle, a hyfforddiant yn y gwaith i gefnogi pobl i aros mewn gwaith. Byddwn yn herio cyflogwyr i feddwl yn greadigol am sut y maent yn dylunio swyddi ac yn recriwtio pobl i'w llenwi.

Mae Cymru Iach ar Waith[17] yn gweithio gyda chyflogwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol ac unigolion i wella iechyd a lles yn y gwaith, lleihau effaith salwch yn y gwaith, ac annog ymyrraeth gynnar i adsefydlu'r rhai hynny sydd yn sâl neu wedi cael eu hanafu. Byddwn yn gwerthuso'r rhaglen er mwyn ystyried blaenoriaethau sy'n newid, gwella cymorth i Fusnesau Bach a Busnesau Canolig, i sicrhau cynaliadwyedd y rhaglen o fewn adnoddau presennol, i ystyried tueddiadau'r gweithlu yn y dyfodol, ac i sicrhau gwelliant parhaus yn seiliedig ar y dystiolaeth ryngwladol orau.

3.13 Mae Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017 - 2020[18] yn adlewyrchu'r cynllun cyflawni ASD sy'n cytuno ar y cam gweithredu: 'Mae Llywodraeth Cymru yn gyflogwr ystyriol o awtistiaeth - Ymgysylltu â staff sydd ag awtistiaeth i nodi pa gamau penodol y gellid eu rhoi ar waith: e.e. system cyfeillio, hyfforddiant ar gyfer timau ac ati. I gefnogi'r camau gweithredu hyn mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y canlynol;

---

[14] https://www.careerswales.com/cy/porth-sgiliau/rhaglen-fynediad/

[15] http://www.careerswales.com/cy/swyddi-a-hyfforddiant/chwilio-am-swydd/mae-angen-profiad-arna-i/hyfforddeiaeth/

[16] https://www.careerswales.com/cy/porth-sgiliau/rhaglen-sgiliau-cyflogadwyedd/

[17] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/63927

[18] https://llyw.cymru/rhaglen-cydraddoldeb-chynhwysiant-2017-hyd-2020?_ga=2.55678955.1991398874.1561666773-881363834.1547048528

- Sefydlu Rhwydwaith ASD anffurfiol sydd yn rhwydwaith cefnogi cymheiriaid gweithredol. Mae Cyfarwyddwr a nodwyd yn Llywodraeth Cymru fel hyrwyddwr / noddwr anffurfiol. Mae Cyfarwyddwr hefyd wedi cael mentora o chwith gan Gadeirydd y Rhwydwaith ASD. Mae'r Cyfarwyddwr wedi ysgrifennu a chyhoeddi blog i'r holl staff ar ei phrofiad o gael ei mentora o chwith gan gydweithiwr awtistig.

- Fel rhan o'r hyfforddiant cynefino ar gyfer pob aelod newydd o staff, mae'r Rhwydwaith ASD yn cael ei grybwyll, ynghyd â'r holl rwydweithiau amrywiaeth staff eraill.

- Enillwyd Gwobr Amrywiaeth Llywodraeth Cymru 2019 gan Gadeirydd Rhwydwaith ASD newydd Llywodraeth Cymru. Yn cydnabod yr effaith mae wedi'i chael ar aelodau staff awtistig a chydweithwyr sydd ag aelodau awtistig yn eu teulu efallai. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi ysgrifennu nifer o flogiau sydd wedi helpu pobl i ddeall sut beth yw bod yn awtistig o ddydd i ddydd. Mae'r blogiau wedi cael eu rhannu a'u cydnabod gan y Gwasanaeth Sifil ehangach a Swyddfa'r Cabinet.

- Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth 2018 - Cynhaliwyd lansiad y Rhwydwaith ASD a chyhoeddwyd nifer o flogiau gan gydweithwyr. Fel rhan o'r wythnos roedd sesiwn Ymwybyddiaeth Awtistiaeth lle gwnaethom wahodd Blogiwr Awtistiaeth i ddod i'r swyddfa a rhoi ei hanes hi o fod yn awtistig. Erthyglau mewnrwyd a gyhoeddwyd i'r holl staff gyda dyfyniadau o gefnogaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol a Hyrwyddwr y Bwrdd Amrywiaeth. Hefyd yn yr erthygl roedd dolenni i Sgyrsiau TED.

- Hyfforddiant Cadeirydd Panel AD - Y llynedd, fe wnaeth holl gadeiryddion y Panel AD fynychu hyfforddiant diweddaru. Fel rhan o'r hyfforddiant hwn roedd sesiwn ar addasiadau rhesymol yn ystod y broses recriwtio. Rhoddwyd pwyslais mawr ar awtistiaeth a sut fel sefydliad y gallwn ni ddenu, recriwtio a chadw aelodau awtistig o staff, a pha addasiadau y gallent ofyn amdanynt a sut y gallwn ddarparu ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i berson awtistig fynd â nodiadau i gyfweliad os gofynnir am hynny.

- Canllawiau i Ymwelwyr: Mae canllawiau ystyriol o awtistiaeth bellach wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer unrhyw un a allai ymweld â Pharc Cathays am gyfweliad neu gyfarfod. Mae'n rhoi cyfarwyddyd clir ar gael mynediad i'r adeilad, derbyn a mynd drwy'r broses diogelwch. Mae'r rhain bellach wedi cael eu cyhoeddi ar wefan allanol Llywodraeth Cymru. https://gov.wales/visiting-welsh-government-cathays-park

3.14 Cyhoeddwyd fframwaith newydd Llywodraeth Cymru - 'Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol'[19] ar gyfer ymgynghori ar 22 Hydref 2018 a'i gau ar 18 Ionawr 2019. Mae'r Fframwaith wedi bod yn cael ei ddatblygu ers 2017 drwy ymgysylltu â phobl anabl ac o dan arweiniad y Grŵp Llywio Byw'n Annibynnol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys rhanddeiliaid Anabledd ac mae'n cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr Anabledd Cymru[20], sy'n bwydo safbwyntiau eu haelodau a'u rhwydweithiau. Mae 67 ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dod i law sydd bellach wedi'u dadansoddi. Byddwn yn cryfhau rhai rhannau allweddol o'r cynllun gweithredu i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym yn rhagweld y bydd y fersiwn derfynol o'r Fframwaith yn cael ei chyhoeddi yn ystod Haf 2019.

3.15 Mae'r Fframwaith yn parhau i fod wedi'i wreiddio yn y Model Cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau sefydliadol, agweddol ac amgylcheddol i gydraddoldeb a chynhwysiant y mae'n rhaid cael gwared arnynt i roi chwarae teg. Yn cyd-fynd â'r Fframwaith, mae cynllun gweithredu sy'n amlinellu ystod eang o gamau gweithredu sydd ar waith ar draws Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau allweddol a nodwyd gan bobl anabl eu hunain, gan gynnwys trafnidiaeth, cyflogaeth, tai a mynediad i adeiladau a lleoedd ac mae'n gydnaws â chyflawni'r strategaeth awtistiaeth.

3.16 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi grant Ar y Blaen 2 hefyd, a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr[21], sy'n targedu pobl ifanc 16-25 oed ag anabledd/anhawster dysgu neu ASD. Mae'r rhaglen yn creu a chefnogi cyfleoedd cyflogaeth hirdymor i bobl ifanc trwy ymgysylltu â phobl ifanc a chyflogwyr. Mae'n darparu'r cymorth dwys sydd ei angen ar bobl ifanc i barhau mewn cyflogaeth ystyrlon. Mae rhai canlyniadau ar gyfer dwy flynedd gyntaf y rhaglen i'w gweld yn y tabl isod. Mae gwybodaeth fanylach am y rhaglen ar y wefan www.engagetochange.org.uk

[19] https://llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol?_ga=2.227196893.1991398874.1561666773-881363834.1547048528
[20] http://www.disabilitywales.org/
[21] https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/programmes/getting-ahead2

**Tabl 1. Ystadegau penodol i Bobl Ifanc sydd wedi cael diagnosis o ASD (gan gynnwys fel cyflwr cydafiachedd).** *Grant Ar y Blaen 2*

| | Blynyddoedd 1-2 | B2 |
|---|---|---|
| Nifer yr atgyfeiriadau | 105 | 51 |
| Nifer y Proffiliau galwedigaethol | 105 | 42 |
| Nifer ar leoliad di-dâl | 47 | 21 |
| Nifer ar leoliad â thâl | 39 | 26 |
| Nifer wnaeth ddechrau swydd | 18 | 4 |
| Nifer o swyddi a gadwyd | 16 | 4 |

*Cyflyrau sy'n cydfodoli*

3.17 Amcangyfrifir bod tua 40% o bobl ar y sbectrwm awtistig sydd ag anabledd dysgu sy'n cydfodoli. Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau[22] (LDILP). Dechreuodd y rhaglen waith yn 2017 gydag adolygiad eang yn edrych ar yr hyn y gallai person sydd ag anabledd dysgu, ynghyd â'u teuluoedd a'u gofalwyr, fod angen ar draws ystod eu bywydau a p'un a oedd yr anghenion hyn yn cael eu diwallu. Fel rhan o'r adolygiad hwn, fe wnaeth y Tîm Gwella Bywydau gyfarfod dros 2,000 o bobl.

Mae'r adroddiad LDILP yn cynnwys pedwar ar hugain o argymhellion sy'n canolbwyntio ar bum maes allweddol:

- Y Blynyddoedd Cynnar
- Tai
- Gofal Cymdeithasol;
- Iechyd a lles
- Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog wedi cael ei sefydlu i oruchwylio gweithrediad y rhaglen. Mae ei aelodau yn cynnwys pobl sydd ag

[22] https://llyw.cymru/rhaglen-gwella-bywydau-pobl-ag-anableddau-dysgu?_ga=2.115383494.1991398874.1561666773-881363834.1547048528

anabledd dysgu; gofalwyr teuluol; y trydydd sector; cynrychiolwyr o awdurdodau lleol; a gweithwyr iechyd proffesiynol.

O ymchwil a gwerthusiadau a gomisiynwyd o wasanaethau presennol rydym wedi nodi'r angen i gyfeirio at gyflyrau niwroddatblygiadol sy'n cydfodoli fel rhan o'r Cod Ymarfer.

*Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol (IAS)*

3.18 Mae'r gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol[23] (IAS) bellach ar gael ym mhob rhanbarth. Yn ogystal ag annog cydweithio ar draws y rhanbarthau IAS, rydym hefyd wedi sefydlu Cymuned Ymarfer ddiagnostig i oedolion i ddwyn ynghyd ymarferwyr arbenigol o bob cwr o Gymru i wella sut rydym yn cyflwyno gwasanaethau diagnostig; mae hyn yn cynnwys datblygu llwybr asesu diagnostig cenedlaethol i oedolion a chefnogi gwelliannau mewn sgiliau diagnostig clinigwyr.

Trwy ddatblygu'r IAS, daeth hi'n glir bod rhaid meithrin a chynnal cysylltiadau agos ag asiantaethau eraill sy'n darparu cymorth, yn enwedig gwasanaethau anableddau dysgu, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol, a gyda sefydliadau trydydd sector hanfodol sy'n cynnig cymorth. Rydym yn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau trwy hyrwyddo cydweithio a byddwn yn datblygu llwybrau ymyrraeth i sicrhau bod pob asiantaeth sy'n darparu cymorth i bobl awtistig yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu system ddi-dor ac integredig.

*Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant*

3.19 Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn parhau i gefnogi ymwybyddiaeth o awtistiaeth mewn ysgolion. Mae'r rhaglen ysgolion cynradd Dysgu gydag Awtistiaeth[24] (LwA) a lansiwyd yn 2016, wedi gweld 47 o ysgolion yn cyflawni eu gwobr LwA yn 2018/19 gan fynd â'r cyfanswm i 127 o ysgolion ledled Cymru. Yn ogystal â hyn, mae nifer y staff addysgu, staff cefnogi dysgu ac Uwch-arwyr Awtistiaeth[25] sy'n manteisio ar hyfforddiant wedi bod yn galonogol. Lansiwyd y rhaglen Ysgolion Uwchradd ar ddechrau mis Medi 2017. Bwriedir cyflwyno dau gynllun mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf 2019/20. Mae mwy o wybodaeth am y rhaglen yn Atodiad dau ac ar y Wefan, www.asdinfowales.co.uk sy'n cefnogi cyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol.

Maen nhw wedi datblygu a darparu hyfforddiant penodol i amrywiaeth o asiantaethau gan gynnwys CLILC, Data Cymru, Llywodraeth Cymru, y 3ydd Sector, Canolfannau Plant, canolfannau hamdden Sir Gaerfyrddin

[23] https://www.asdinfowales.co.uk/integrated-autism-service-2

[24] https://www.asdinfowales.co.uk/primary-school

[25] https://www.asdinfowales.co.uk/autism-superhero-2

a'r Gwasanaethau Brys yng Nghymru. Mae ganddynt amrywiaeth o gynlluniau hyfforddi a, thros y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi'u cyflwyno ledled Cymru a bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2019/20.

*Casglu data*

3.20 Mae data o ansawdd da yn hanfodol er mwyn deall effaith diwygiadau gwasanaethau ac i gynllunio gwasanaethau awtistiaeth yn y dyfodol. Rydym yn gweithio i wella data awtistiaeth, mae hyn yn cynnwys sicrhau bod awtistiaeth yn cael ei gynnwys mewn setiau data cenedlaethol, a lle bo angen i fonitro effaith gwasanaethau newydd yn uniongyrchol. Rydym wedi comisiynu astudiaethau annibynnol ar y broses o gyflwyno'r gwasanaeth awtistiaeth integredig ac o fis Ebrill 2019 byddwn yn cyflwyno fframwaith monitro a safonau gwasanaeth ar gyfer yr IAS. Bydd y data hwn yn llywio gwasanaethau yn y dyfodol yn uniongyrchol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno safon amser aros ar gyfer gwasanaethau asesu plant a phobl ifanc a, bydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law.

3.21 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo hefyd i gasglu ystod o ddata er mwyn deall yr effaith y mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei chael ar bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Rydym yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwn drwy ddatblygu Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd[26]. Mae'r fframwaith newydd hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol ar hyn o bryd (yn cau ar 5 Awst) gyda'r nod y bydd cam cyntaf y fframwaith newydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2020.

3.22 Fel rhan o'r fframwaith hwn mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddeall yr effaith y mae'r Ddeddf yn ei chael ar oedolion a phlant ag anableddau sy'n derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys oedolion a phlant ag Awtistiaeth. Er mwyn ymdrin â hyn, cynigir bod y fframwaith newydd yn cynnwys cyflwyno Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth. Bydd hyn yn seiliedig ar y Cyfrifiad Gofal a Chymorth i Blant a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. Bydd hyn yn galluogi casglu data ar lefel unigolyn a fydd yn rhoi darlun llawer cyfoethocach i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lles a sefydliadau'r trydydd sector o'r niferoedd o bobl yn y system gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ogystal â dealltwriaeth fwy cywir o'u profiadau o ofal cymdeithasol ac effaith y profiadau hyn ar eu canlyniadau lles.

*3.23* Mae datblygiad y dull Cyfrifiad hwn yn llawer mwy cymhleth na'r cynlluniau gwreiddiol a gynigiwyd gyntaf gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen datblygu'r dull newydd mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn awdurdodau lleol ac yn y trydydd sector sydd yn meddu ar yr arbenigedd priodol wrth gefnogi oedolion a phlant ag anableddau yn ogystal â dealltwriaeth o natur arbenigol y data fydd angen cael ei

[26] https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-05/consultation-document.pdf

chasglu. Y bwriad yw y bydd y gwaith hwn yn dechrau yn ystod tymor yr Hydref 2019.

3.24 Bydd y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd a gynigwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol yn cynnwys casgliadau data lefel unigolyn dienw ar gyfer yr holl unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol o 2021. Bydd y casgliadau hyn yn cynnwys gwybodaeth ar p'un a oes gan unigolyn sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol awtistiaeth yn ogystal â chasglu gwybodaeth ar anableddau corfforol neu anableddau dysgu eraill. Mae'r fframwaith newydd hefyd yn annog ffyrdd eraill o gasglu data, gyda phwyslais o'r newydd ar fethodolegau ansoddol a'r defnydd o ymchwil a thystiolaeth i gasglu gwybodaeth wella i ysgogi'r ddealltwriaeth o angen a darpariaeth ar lefel leol a chenedlaethol.

3.25 Fodd bynnag, mae gwaith pellach rydyn ni angen ei wneud ar gysylltu'r dotiau rhwng cyflenwi swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'r boblogaeth ehangach, felly er y bydd ein fframwaith yn casglu data ar wasanaethau cymdeithasol mae cysylltiadau hefyd gyda'r gwaith a gyflawnir gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, timau IAS, gwasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau ataliol. Mae hyn yn llawer mwy cymhleth, ond yn rhywbeth y byddwn ni'n ei ystyried yn ystod cam nesaf y prosiect.

3.26 Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda GPC Cymru a NWIS am sefydlu cofrestr o fewn system glinigol meddygon teulu. Mae nifer o faterion wedi cael eu nodi, gan gynnwys, ehangder y sbectrwm Awtistiaeth, arbenigwr yn unig all wneud diagnosis, yr angen am ganllawiau clir ar godio, diben y gofrestr a chamau gweithredu fyddai'n ddisgwyliedig gan y practis cyffredinol. Rydym wedi cytuno i gyflwyno i Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cyswllt y bwrdd iechyd er mwyn nodi arweinydd i weithio gyda chydweithwyr polisi ac arbenigwyr Awtistiaeth.

## 4. Yr hyn a ddywedwyd wrthym

4.1 Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi derbyn llawer iawn o wybodaeth newydd ac adborth gan randdeiliaid ar ddarparu gwasanaethau awtistiaeth a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gwella. Ar gyhoeddi'r strategaeth awtistiaeth yn 2016 rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig; cyhoeddwyd adroddiad interim ym mis Mawrth 2018[27] a amlygodd yr anawsterau wrth ddatblygu gwasanaeth integredig. Roed yr adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019[28] yn adlewyrchu bod yr IAS yn cael ei ystyried fel gwasanaethau oedd wir eu hangen a gwelwyd

[27] https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-gwasanaeth-awtistiaeth-integredig-ar-cynllun-gweithredu-strategol-ar-gyfer?_ga=2.18985976.1991398874.1561666773-881363834.1547048528
[28] https://llyw.cymru/gwerthusiad-gwasanaeth-awtistiaeth-integredig-cynllun-gweithredu-strategol-anhwylderaur-sbectrwm-awtistig?_ga=2.14850294.1991398874.1561666773-881363834.1547048528

cynnydd da yn gyffredinol yn y gwasanaethau oedd ar agor. Gwnaeth yr adolygiad 19 o argymhellion sydd wedi'u hamlinellu yn **Adran 6 yr adroddiad hwn** gyda'n hymateb cychwynnol. Mae'r argymhellion yn ymwneud â gwelliant mewn cyfathrebu, monitro, cyllid, datblygu'r gweithlu, cydweithio, cyflyrau sy'n cydfodoli ac effaith polisïau Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth ac addysg.

4.2 Yn ychwanegol at y gwerthusiad annibynnol a sefydlu targed amser aros asesu plant a phobl ifanc fel sydd wedi'i grybwyll yn gynharach, rydym hefyd wedi monitro hynt y Bil Awtistiaeth (Cymru) yn ofalus. Rydym wedi ystyried yn ofalus yr argymhellion a wnaed gan bwyllgorau craffu'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru a'r adborth a ddarparwyd gan nifer o randdeiliaid ar rinweddau deddfwriaeth benodol i awtistiaeth, mae'r rhain hefyd yn Adran 6 yr adroddiad hwn gyda'n hymateb. Rydym hefyd wedi derbyn adborth ar ein cynigion ar gyfer cod ymarfer awtistiaeth, bydd yr adroddiad cryno yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin, ac rydym wedi comisiynu ymchwil pellach ar y cysondeb rhwng gwasanaethau niwroddatblygiadol ac awtistiaeth ac adolygiad o'r rhwystrau i leihau amseroedd aros asesu. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd yr haf.

## 5 Polisi Awtistiaeth - Argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| ASD SAP Prif Werthusiad Ebrill 2019 | **Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol adolygu'r strategaeth gyfathrebu, er mwyn rhoi eglurder ynghylch rôl a chylch gwaith y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS). | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol |
| | **Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol nodi sut gall mwy o wybodaeth am y cynnydd wrth sefydlu'r IAS, yr heriau a wynebwyd, a'i berfformiad, gael eu rhannu'n briodol ag (i) rhanddeiliaid sy'n ymwneud â datblygu a sefydlu'r IAS (e.e. drwy'r Grŵp Gweithredu Ymgynghori Cenedlaethol a'r gymuned ymarfer) a (ii) oedolion, plant a phobl ifanc awtistig a’u teuluoedd, a'r cyhoedd drwy, er enghraifft, ASDinfoWales a grwpiau llywio ASD lleol. | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol |
| | **Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru, y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a Hyrwyddwyr ASD y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol barhau i fonitro datblygiad a pherfformiad y pum IAS cyntaf (Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Gwent, Powys a Gogledd Cymru) a sefydlu'r ddau wasanaeth sy'n weddill (Bae'r Gorllewin a Gorllewin Cymru). | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol |
| | **Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru, y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol adolygu digonolrwydd cyllid cyffredinol ar gyfer yr IAS, o ystyried y galw am asesu a diagnosis, cymorth a | Bydd cyfnod peilot yr IAS wedi’i gwblhau erbyn mis Mawrth 2021. Bydd trefniadau ar gyfer ariannu’r gwasanaeth yn y dyfodol yn dechrau yn gynnar yn 2020, er mwyn sicrhau |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | gwaith cydweithredol gyda gwasanaethau eraill. | parhad gwasanaethau y tu hwnt i 2021 |
| | **Argymhelliad 5.** Dylai'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sicrhau bod monitro cysondeb drwy gydymffurfio â safonau cenedlaethol yr IAS yn cael ei ategu gan feincnodi canlyniadau ar draws IAS. Dylid gwneud hyn mewn ffordd ddeallus ac ymchwilio i'r rhesymau dros y gwahaniaethau yn y canlyniadau; er enghraifft, mae gwahaniaethau o ran adnoddau a chyd-destun yn debygol o effeithio ar ganlyniadau. Bydd gwelliannau o ran mesur canlyniadau a chyflwyno adroddiadau arnynt drwy ddefnyddio Sêr Canlyniadau yn hanfodol er mwyn galluogi hyn. | Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn gweithio gyda'r IAS ac wedi cytuno ar fframwaith monitro cenedlaethol. Bydd y casglu data peilot yn dechrau ym mis Mai 2019. Bydd gwaith cydweithredol yn cael ei gynnal gyda NWIS i gynllunio cydweddoldeb â'r system WCCIS. |
| | **Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol adolygu'r dosraniad cyllid ar gyfer pob IAS yn sgil y dystiolaeth o'r galw am bob gwasanaeth. | Bydd cyfnod peilot yr IAS wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2021. Bydd trefniadau ar gyfer ariannu'r gwasanaeth yn y dyfodol yn dechrau yn gynnar yn 2020, er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau y tu hwnt i 2021 |
| | **Argymhelliad 7.** Dylai pob IAS fynd ati o bryd i'w gilydd i adolygu ei waith gyda gwasanaethau eraill i sicrhau bod dull strategol yn cael ei gymryd, a bod ymgysylltu â gwasanaethau gwahanol yn cael blaenoriaeth (e.e. pa wasanaethau yr ymgysylltir â hwy fel blaenoriaeth) a'u cynllunio. Dylid fanteisio ar gyfleoedd i gynnwys oedolion awtistig ac aelodau o'r teulu hefyd yn yr adolygiad hwn. | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol |
| | **Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru, y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a Hyrwyddwyr ASD y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol archwilio sut mae'r rhyngwyneb rhwng yr IAS a gwasanaethau eraill yn datblygu, yn | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Bydd hyn hefyd yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | enwedig ei effaith ar fynediad at wasanaethau iechyd meddwl a gofal cymdeithasol ac ar ganlyniadau ar gyfer oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr. | a datblygiad polisi yn 2019/20 |
| | **Argymhelliad 9.** Fel yr amlinellir yn y Cod Ymarfer Awtistiaeth drafft: "Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol sicrhau bod gan weithwyr iechyd proffesiynol y wybodaeth a'r hyfforddiant ar awtistiaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn gwneud eu gwaith". Fel rhan o hyn, dylai byrddau iechyd lleol adolygu arfer asesu a diagnosis mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu i oedolion a, lle bo angen, buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu'r gweithlu i fynd i'r afael â bylchau hyder a sgiliau. | Bydd hyn yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth a datblygiad polisi yn 2019/20 |
| | **Argymhelliad 10.** Dylai Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig barhau i fonitro proffil oedolion awtistig sy'n cael mynediad i'r gwasanaeth er mwyn asesu pa mor addas yw'r cymorth a gynigir gan yr IAS i anghenion grwpiau gwahanol, fel oedolion awtistig, pobl ag anawsterau iechyd meddwl a phobl ag anghenion synhwyraidd. Dylai hyn gael ei lywio gan ddadansoddiad o ddata ar ganlyniadau. | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Bydd hyn hefyd yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth a datblygiad polisi yn 2019/20 |
| | **Argymhelliad 11.** Dylai'r IAS asesu capasiti'r gwasanaeth i ymateb i newidiadau o ran amgylchiadau ac anghenion pobl; er enghraifft, gallai hyn gynnwys monitro nifer yr oedolion awtistig sy'n cael ymyriad tymor byr, sy'n canolbwyntio ar ganlyniad, ac sydd wedyn yn ail-ymgysylltu â'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn nes ymlaen, pan fydd eu hamgylchiadau neu eu hanghenion yn newid. | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Bydd hyn hefyd yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth a datblygiad polisi yn 2019/20 |
| | **Argymhelliad 12.** Dylai'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a'r | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
| --- | --- | --- |
| | Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig barhau i fonitro a gwerthuso i ba raddau y mae'r ymyriadau a'r cymorth maent yn eu cynnig i oedolion a rhieni a gofalwyr yn diwallu eu hanghenion. Lle nodir bylchau o ran cymorth, dylid ystyried a ddylai Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ddatblygu eu cynnig a/neu weithio gyda gwasanaethau eraill i ddiwallu'r angen. | Cenedlaethol. Bydd hyn hefyd yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth a datblygiad polisi yn 2019/20 |
| | **Argymhelliad 13.** Dylai'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol weithio gydag IAS, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y sector gwirfoddol a defnyddwyr gwasanaethau, i ystyried cwmpas ac uchelgais y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig; er enghraifft, a ddylai'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (i) canolbwyntio ei waith ar nifer bach o wasanaethau fel gwasanaethau iechyd meddwl, anabledd dysgu a gofal cymdeithasol, neu (ii) a ddylai geisio ymgymryd ag agenda mwy uchelgeisiol, i weithio'n systematig hefyd gyda gwasanaethau eraill fel gwasanaethau hamdden, cyflogaeth a thai? Dylai hyn ystyried pa sefydliad(au) sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni hyn, a'u capasiti i wneud hynny. | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol |
| | **Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru a’r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol weithio gyda rhanddeiliaid eraill er mwyn archwilio pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddatblygu polisi Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASD) rhanbarthol a lleol. | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth a datblygiad polisi yn 2019/20 |
| | **Argymhelliad 15.** Wrth i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig gael ei sefydlu'n gadarn dylai Llywodraeth Cymru, y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau | Bydd hyn yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth a datblygiad polisi yn 2019/20 |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | Cyhoeddus ac Arweinwyr ASD Lleol weithio gydag oedolion awtistig a'u teuluoedd, a'r sector gwirfoddol, i nodi'r blaenoriaethau gweithredu nesaf; er enghraifft, ymddengys fod cymorth mewn addysg, ar gyfer cyfnodau pontio a chyflogaeth yn anghenion allweddol heb eu diwallu, ond mae'n rhy gynnar i farnu a yw camau gweithredu yn y diweddariad o'r strategaeth awtistiaeth yn ddigonol i fynd i'r afael â hyn. | |
| | **Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod effaith y Cod Ymarfer Awtistiaeth yn cael ei werthuso a bod ei effaith, er enghraifft, ar fynediad at ofal cymdeithasol yn cael ei ystyried. | Bydd hyn yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth a datblygiad polisi yn 2019/20 |
| | **Argymhelliad 17.** Cyn belled â phosibl, dylai gwerthusiadau'r dyfodol o elfennau allweddol eraill o'r strategaeth awtistiaeth megis y Rhaglen Cyflogadwyedd a'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fod yn ofynnol er mwyn canfod ac adrodd ar eu heffaith ar bobl awtistig. | Bydd hyn yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth a datblygiad polisi yn 2019/20 |
| | **Argymhelliad 18.** Dylai Byrddau Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol sy'n cynnal IASs fonitro staffio ac effaith penderfyniadau am delerau, amodau a chyflog ar gyllidebau gwasanaethau a'u gallu i recriwtio a chadw staff. | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Bydd hyn hefyd yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth a datblygiad polisi yn 2019/20 |
| | **Argymhelliad 19.** Dylai'r IAS weithio gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth sydd ei hangen i lywio penderfyniadau am gyllid hirdymor ar gael. | Cynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Bydd hyn hefyd yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | | a datblygiad polisi yn 2019/20 |
| | **Argymhelliad 20** Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei disgwyliadau ynghylch cyllido'r IAS yn yr hirdymor; er enghraifft, os profir bod y model yn gost effeithiol, ai'r disgwyliad yw y bydd yn parhau i gael ei gyllido drwy'r Gronfa Gofal Integredig, neu a fydd disgwyl, er enghraifft, i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol gyllido'r gwasanaeth ar ôl Mawrth 2021. | Bydd hyn yn cael ei ystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygiad y cod ymarfer awtistiaeth a datblygiad polisi yn 2019/20 |
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Chwaraeon. Bil Awtistiaeth (Cymru) Adroddiad Cam Un.** | **Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol i wella cysondeb y gwasanaethau ar draws y rhanbarthau, er mwyn sicrhau dull gweithredu cenedlaethol, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis. Rydym hefyd yn argymell ei bod yn cynhyrchu gwybodaeth gyhoeddus glir i egluro'r hyn y gall pobl ei ddisgwyl o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. | **Detholiad o Ymateb Ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.** Cytunwyd.<br><br>Cefnogir y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sy'n rhan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Tîm yn hwyluso grŵp Penaethiaid y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i hyrwyddo cydweithio. Mae gwaith diweddar wedi cynnwys adolygu a diweddaru'r fanyleb ar gyfer y gwasanaeth, a chytuno ar drefniadau monitro ar draws y gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Rwy'n disgwyl i'r fanyleb genedlaethol a'r trefniadau monitro diwygiedig fod ar gael erbyn mis Ebrill.<br>Mae gwybodaeth am y Gwasanaeth |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
| --- | --- | --- |
| | | Awtistiaeth Integredig ac adnoddau awtistiaeth ar gael ar wefan ASDinfowales www.asdinfowales.co.uk .<br>Bydd pob gwasanaeth rhanbarthol hefyd yn Cynhyrchu eu deunyddiau cyfathrebu eu hunain. Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig wedi'i ddylunio i bontio bwlch a nodwyd mewn gwasanaethau yn hytrach na disodli cymorth sy'n bodoli eisoes.<br>Bydd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig weithiau yn atgyfeirio unigolion at wasanaethau prif ffrwd eraill sydd mewn sefyllfa well i ddarparu cymorth arbenigol.<br>Rydym yn gweithio i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas ag awtistiaeth ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus drwy'r adnoddau a'r hyfforddiant a ddarperir drwy'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ac yn lleol gan dimau'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Ceir enghreifftiau o'r adnoddau hyn ar wefan ASDinfowales.<br>Gan fod pob Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig wedi gweddnewid gwasanaethau awtistiaeth presennol yn eu rhanbarthau, bydd rhai gwahaniaethau o ran sut mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu, er mwyn ystyried amrywiadau fel y gymysgedd o ran staff proffesiynol, daearyddiaeth leol a'r gwasanaethau sydd eu hangen fwyaf mewn unrhyw ardal.<br>Ein bwriad yw cyhoeddi canfyddiadau'r |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | | gwerthusiad annibynnol o'r broses o weithredu'r gwasanaeth erbyn diwedd mis Chwefror, a byddwn yn ystyried yn ofalus yr argymhellion a wnaed ochr yn ochr â'r rhai a wnaed gan y pwyllgorau craffu.<br>Byddwn yn nodi cynlluniau pellach ar gyfer gwerthuso a monitro ein diwygiadau fel rhan o'r adroddiad blynyddol ar gyflawni'r strategaeth ASD ym mis Mehefin 2019. |
| | **Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ASD uniongyrchol ledled Cymru (y tu hwnt i'r gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig), ac yn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol y trydydd sector yn derbyn cyllid cynaliadwy er mwyn gallu parhau â'u gwasanaethau cymorth arbenigol a'u hehangu, er mwyn darparu cymorth rheng flaen uniongyrchol a llenwi'r bylchau na all y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig eu llenwi. | Cytunwyd<br>Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn wasanaeth ychwanegol a ddyluniwyd i gynyddu capasiti. Dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd hefyd sicrhau bod gwasanaethau awtistiaeth cyfredol yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. O 2015/16 ymlaen rhoddodd Llywodraeth Cymru grant seilwaith Awtistiaeth o £40k i bob awdurdod lleol o dan y Grant Cymorth Refeniw. Mae'r cyllid hwn ar gael i awdurdodau lleol gefnogi gwasanaethau awtistiaeth a allai gynnwys sicrhau cymorth gan y trydydd sector.<br>Hefyd, mae cynllun grantiau trydydd sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Leol wedi'u dylunio'n benodol i ddarparu cyllid i grwpiau sector gwirfoddol cenedlaethol er mwyn darparu gwasanaethau cymorth cymunedol. Bydd y grant nesaf ar gael o fis Ebrill 2020 ymlaen |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | | ac rydym yn annog grwpiau yn y sector gwirfoddol, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth arbenigol i bobl awtistig, i wneud<br>cais am gyllid drwy'r broses gystadleuol gwneud cais am grant a gaiff ei hysbysebu yn ddiweddarach yn 2019 |
| | **Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau ar fyrder i fynd i'r afael â'r angen clir am gymorth cyflogaeth ar gyfer oedolion ag ASD. Rhaid cael llwybr clir i oedolion allu cael mynediad i gymorth i'w cynorthwyo i gael swydd. Dylai Gyrfa Cymru chwarae mwy o ran ond mae achos hefyd dros ddarparu cyllid ychwanegol i asiantaethau'r trydydd sector i gyflawni gwasanaethau cymorth cyflogaeth arbenigol. | Mae gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a'r arweinwyr awtistiaeth lleol berthynas waith gref â'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cynorthwyo eu staff i gefnogi pobl awtistig sy'n derbyn budd-daliadau diweithdra, nad ydynt wedi'u datganoli. Mae ein rhaglen Gweithio gydag Awtistiaeth a ddarperir drwy'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ASD yn cefnogi Gyrfa Cymru a Chanolfannau Byd Gwaith i ddarparu cyngor a chymorth i unigolion sydd ag awtistiaeth sy'n ceisio cymorth cyflogaeth. Erbyn diwedd 2018, roedd 30,000 o unigolion wedi cwblhau ein cynllun ymwybyddiaeth o ASD (gydag 8,006 yn ei gwblhau yn ystod 2018) ac roedd 1,210 wedi cwblhau'r cynllun Gweithio gydag Awtistiaeth. Cwblhawyd y cynllun Adnoddau Dynol, Bod yn Fodlon Gweithio gydag Awtistiaeth, gan 263 o bobl. Mae'r cynllun Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth bellach yn cael ei gyflwyno i staff Llywodraeth Cymru.<br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â phrosiect 'Ar y Blaen |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | | Rownd 2' y Gronfa Loteri Fawr, sy'n rhaglen pum mlynedd sydd â'r nod o gefnogi pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu neu awtistiaeth i fyd gwaith. Darperir y prosiect hwn gan gonsortiwm y trydydd sector ac mae yn ei drydedd flwyddyn. Hyd at fis Tachwedd 2018, atgyfeiriwyd 200 o bobl ifanc awtistig i'r gwasanaeth, gyda 170 yn derbyn proffil galwedigaethol, 160 yn ymgymryd â lleoliadau ac mae 33 o bobl ifanc awtistig bellach mewn cyflogaeth gynaliadwy.<br>Hefyd yn 2018, cyhoeddwyd cynllun cyflogadwyedd Traws-lywodraethol a nododd ein gweledigaeth er mwyn gwneud Cymru yn economi cyflogaeth lawn, uwch-dechnoleg, cyflog uchel. Wrth wraidd yr uchelgais hon, rydym yn ymrwymedig i helpu pawb i gyflawni eu llawn botensial drwy gyflogaeth ystyrlon, waeth beth fo'u gallu, problemau iechyd, cefndir, cenedl neu ethnigrwydd.<br>Rydym yn cefnogi pobl nad ydynt yn gweithio, gyda phwyslais arbennig ar y rhai sy'n anweithgar yn economaidd ac yn llai tebygol o fod mewn cysylltiad â chymorth cyflogaeth prif ffrwd.<br>Bydd hyn yn cynnwys rhoi cymorth i bobl awtistig a byddwn yn archwilio lle y gellid gwneud mwy i ddarparu'r cymorth wedi'i deilwra sydd ei angen arnynt.<br>Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn cymryd camau mewn pedair thema benodol; gan |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | | ddarparu dull gweithredu wedi'i deilwra'n benodol i'r unigolyn o ran darparu cymorth cyflogaeth, gan bwysleisio cyfrifoldeb cyflogwyr i gefnogi staff, gan gau'r bwlch sgiliau a pharatoi ar gyfer marchnad lafur sy'n newid yn sylweddol.<br>Mae cymorth wedi'i deilwra'n benodol i'r unigolyn yn rhoi ymreolaeth a hyblygrwydd i Gynghorwyr ymdrin ag anghenion, cryfderau ac uchelgeisiau'r person sy'n paratoi at waith |
| | **Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Codau Ymarfer ar gyfer Rhannau 3 (asesu anghenion unigolion) a 4 (diwallu anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gynnwys darpariaethau penodol ar ASD. | Cytunwyd<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth ar 30 Tachwedd, sydd ar agor tan 1 Mawrth 2019. Gwneir y Cod hwn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006. Diben y Cod fydd sicrhau bod gwasanaethau statudol a phobl awtistig yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth a chodau ymarfer cyfred ôl sy'n seiliedig ar anghenion. Bydd y Cod yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion penodol pobl awtistig |
| | **Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol i sicrhau bod nifer o lwybrau atgyfeirio | Cytunwyd<br>Drwy waith y Rhaglen Gyda'r Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, y ffrwd waith |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | priodol a chlir ar gael i bawb, gan gynnwys llwybr gofal sylfaenol penodol, a bod y rhwystrau sy'n bodoli rhwng y sectorau iechyd, gofal ac addysg yn cael eu rhoi i'r neilltu, er enghraifft er mwyn galluogi meddygon teulu i atgyfeirio plant i gael cymorth addysgol. | niwroddatblygiadol, mae llwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gael bellach er mwyn cael mynediad i wasanaethau asesu plant. Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig hefyd yn datblygu llwybrau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau oedolion fel rhan o'r broses o wella gwasanaethau. Mae'r ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yn cyfeirio'n benodol at ddyletswyddau mewn perthynas â darparu llwybrau gofal a chymorth, ac mae hyn yn cynnwys llwybrau diagnostig ar gyfer asesu a diagnosis, i gyfateb â llwybrau gofal cymdeithasol. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i wneud llwybrau gofal sylfaenol yn ofynnol, yn arbennig i feddygon teulu ac i sicrhau bod llwybrau priodol ar gyfer pobl awtistig sydd â chyflyrau eraill sy'n cyd-fodoli i gael mynediad at gymorth sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion. |
| | **Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai fod yn orfodol i bob aelod o staff mewn ysgolion (yn enwedig athrawon a chynorthwywyr addysg) gael hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ASD yn ystod eu hyfforddiant cychwynnol athrawon ac fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. | Cytunwyd<br>Rydym ar hyn o bryd yn diwygio'r ffordd y caiff addysg gychwynnol i athrawon (AGA) ei darparu yng Nghymru. Mae'r diwygiadau i AGA yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaethau AGA a achredwyd ddylunio a darparu cyrsiau sy'n cefnogi pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru ac yn ymdrin â'r chwe maes dysgu a phrofiad er mwyn datblygu athrawon y dyfodol i ddiwallu |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | | anghenion pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag ASD. At hynny, un o elfennau allweddol ein hagenda ddiwygio gyffredinol yw cyflwyno dull gweithredu mwy cadarn o achredu rhaglenni AGA, ac y dylai'r rhain gael eu llywodraethu gan Gyngor y Gweithlu Addysg gan alluogi'r proffesiwn i bennu ei ofynion mynediad ei hun.<br>Bydd y rhaglenni newydd hyn ar gael o fis Medi 2019. Bydd Partneriaethau AGA newydd yn datblygu dulliau gweithredu i gynorthwyo darpar athrawon i ddeall pwysigrwydd arferion a gaiff eu llywio gan ymchwil, er mwyn sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r ymchwil ddiweddaraf, fel ymchwil ar ASD, er mwyn i hyn lywio eu harferion addysgu yn barhaol yn ystod eu bywydau Gwaith. Yn ogystal, mae'n ofynnol i bob athro yng Nghymru fod yn ymwybodol o les a datblygiad personol, emosiynol a chymdeithasol pob dysgwr. Mae'r ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yn cynnwys adran sy'n ymroddedig i wella gwybodaeth a sgiliau staff. Disgwylir i gyrff statudol ymgymryd â dadansoddiad o anghenion hyfforddi ym maes awtistiaeth ar gyfer eu staff, wedi'i deilwra ar gyfer eu hanghenion proffesiynol. Mewn perthynas ag ysgolion, mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi datblygu rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | | gyda'r nod o ddatblygu gwybodaeth ymhlith staff addysgu a dysgwyr, ac mae pecynnau bellach ar gael ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac addysg bellach. Mae ceisiadau ar gyfer y gwobrau Dysgu gydag Awtistiaeth bellach yn cael eu derbyn yn ddyddiol.<br>Mae ein llwyddiant hyd yma fel a ganlyn.<br>•Lansiwyd mewn Ysgolion Cynradd ym mis Mawrth 2016: Mae bron 4500 o staff addysgu wedi cwblhau'r cynllun, a bron 5,000 o gynorthwywyr cymorth dysgu. Mae gennym bellach dros 26,500 o archarwyr awtistiaeth, gydag 11,640 ohonynt wedi cael eu creu eleni. Mae 11 o ysgolion wedi derbyn y dystysgrif wobrwyo ysgol gyfan Dysgu gydag Awtistiaeth (mwy na 40 o ysgolion ledled Cymru yn ystod 2018).<br>•Blynyddoedd Cynnar: cwblhaodd bron 1000 o aelodau staff y cynllun. Dyfarnwyd tystysgrif i 40 o leoliadau. (35 yn fwy ers mis Ionawr)<br>•Ysgolion Uwchradd: mae mwy na 2000 o athrawon wedi cwblhau'r cynllun ac mae 9161 o ddisgyblion wedi llofnod i'r addewid disgyblion (sy'n golygu bod dros 8,700 o ddisgyblion wedi ymrwymo i'r addewid ers mis Ionawr 2018). Gwnaeth 8 ysgol gais a llwyddo i dderbyn eu gwobrau |
| | **Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod y broses o | Cytunwyd |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | weithredu Deddf Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael ei monitro'n agos er mwyn asesu a yw'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ASD yr ystyrir eu bod yn gweithredu ar lefel uchel ac nad oes ganddynt anabledd dysgu ar y cyd. | O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Y Ddeddf ADY"), bydd gan yr holl blant a phobl ifanc y nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol (ADY), a allai gynnwys y rhai sydd ag ASD yr ystyrir eu bod yn gweithredu ar lefel uchel, yr hawl i gael cynllun datblygu unigol a hawliau ac amddiffyniadau cysylltiedig o dan y Ddeddf honno. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnal adolygiad ôl-weithredu o'r Ddeddf ADY bum mlynedd ar ôl iddi ddechrau. Bydd hyn yn asesu i ba raddau y mae'r Ddeddf ADY wedi cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sydd ag ADY yng Nghymru. |
| | **Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru gynnwys darpariaeth i sicrhau y gall unigolion gael mynediad at wybodaeth a chymorth priodol yn yr iaith o'u dewis. | Cytunwyd<br>Mae'r ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer yn cyfeirio'n benodol at argaeledd gwasanaethau sy'n diwallu Safonau'r Gymraeg a lle y bo'n ofynnol, yn darparu addasiadau rhesymol i sicrhau bod pobl awtistig sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael mynediad cyfartal i wasanaethau a chymorth. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiwn Hawdd ei Deall o'r ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y Cod. |
| **Cynulliad Cenedlaethol** | **Argymhelliad 1.**<br>Yn y dyfodol, pe bai'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid y | Cyhoeddwyd llythyr gan y Prif Weinidog, yn ymateb yn uniongyrchol i ymatebion y |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Cymru, Pwyllgor Cyllid. Bil Awtistiaeth (Cymru) Adroddiad Cam Un.** | cynnig a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26.91, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo I ddarparu gwybodaeth i sicrhau bod y costau mewn memorandwm esboniadol mor gynhwysfawr a manwl â phosibl, gan ddefnyddio'r wybodaeth am gost sydd ar gael I Lywodraeth Cymru | Pwyllgor ar 21 Rhagfyr 2018. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth sy'n cael ei chadw gennym, ond ni fyddem yn ymgymryd ag unrhyw waith ychwanegol o gasglu data neu ddadansoddi data unigryw ac ati, gan mai cyfrifoldeb yr Aelod Cyfrifol yw hyn. |
| **Adroddiad ar ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer cod ymarfer awtistiaeth** | Mae angen eglurhad clir ar sut mae cod awtistiaeth yn gyson â dull o ddarparu gwasanaethau ar sail anghenion fel yr argymhellir mewn deddfwriaeth megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried gan dîm polisi awtistiaeth LlC fel rhan o ddatblygu'r cod ymarfer awtistiaeth a datblygu polisi yn 2019/20 |
| | Dylai'r cod ddangos cydbwysedd gofalus rhwng asesu, diagnosis a darparu gwasanaethau cymorth uniongyrchol. | |
| | Dylai rhagor o fanylion fod ar gael ar gyfer llwybrau asesu a chymorth yn cynnwys y rhai i bobl â chyflyrau sy'n cydfodoli sy'n mynd ymhellach nag iechyd meddwl ac anabledd dysgu. | |
| | Dylid cael gwell mynediad at wybodaeth am sut i fanteisio ar gymorth. Dylai hyn fod ar gael ar draws gwasanaethau, yn cynnwys gofal sylfaenol ac eilaidd, a chefnogaeth yn ystod cyfnodau pontio | |
| | Dylid darparu eglurhad clir ar sut bydd y pwerau yn y cod | |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio. | |
| | Dylid cynnwys mwy o wybodaeth ar rôl hyrwyddwr awtistiaeth mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. | |
| | Dylai arddull ysgrifennu’r cod fod yn eglur a dylid cynnwys geirfa. | |
| | Dylid cynnwys mwy o wybodaeth ar sut bydd y dyletswyddau’n ymwneud â hyfforddiant y gweithlu’n cael eu cyflawni i wella gwybodaeth a sgiliau mewn rhannau eraill o’r gweithlu. | |
| | Roedd pryderon sylweddol y byddai cod yn rhoi baich ychwanegol arwyddocaol ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau, a chwestiynau ar sut y byddai hyn yn cael ei gydnabod ac yn cael sylw. | |
| | Croesawyd y bwriad i weithio’n gydweithredol, a chafwyd cytundeb bod angen i bobl awtistig fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu’r gwasanaeth. | |
| | Mae angen mwy o eglurder ynghylch sut mae’r cod yn cysylltu â’r diwygiadau i Anghenion Dysgu Ychwanegol. | |
| | Mae angen cael mwy o gydnabyddiaeth a chyswllt â phwysigrwydd cynnwys y trydydd sector wrth ddarparu’r gwasanaethau. | |

| ADRODDIAD | ARGYMHELLIAD | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| | Mwy o fanylion ar y data a gesglir i fonitro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. | |

## 6 Yr hyn y byddwn ni’n ei wneud

*Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth*

6.1 Yn yr ail flwyddyn ers cyflwyno’r Cynllun Gweithredu Strategol, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan adeiladu ar y sail gadarn a sefydlwyd yn ystod ein blwyddyn gyntaf. Ein ffocws o hyd yw cyflawni ar y buddsoddiad rydym wedi’i wneud i wella gwasanaethau awtistiaeth fel eu bod yn gynaliadwy ac yn gallu diwallu anghenion pobl awtistig yn yr hirdymor.

Y prif ffocws ar gyfer 2019-20 fydd gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni ein hymrwymiad am god ymarfer statudol ar ddarparu gwasanaethau awtistiaeth. Yn y modd hwn, byddwn hyn yn atgyfnerthu cyfrifoldebau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu haddasu i ddiwallu anghenion pobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr. Gan weithredu ar yr adborth ar ein cynigion ar gyfer y cod, rydym wedi gwrando ar alw am fwy o sicrwydd am y gwasanaethau y gall pobl awtistig eu defnyddio o dan ddeddfwriaeth gyfredol a thrwy ddiwygiadau rydyn ni’n eu rhoi ar waith. Rydyn ni hefyd yn gwrando ar weithwyr proffesiynol sy’n bryderus am sut y gellir diwallu galw cynyddol am wasanaeth gan y capasiti cyfyngedig o wasanaethau presennol.

6.2 Bydd yr holl adborth a dderbyniwyd yn cael ei ystyried wrth ddatblygu’r cod ymarfer drafft a bydd yn sail i ddatblygiad polisi awtistiaeth yn y dyfodol ochr yn ochr â chyflwyno’r cod. Yn ystod yr haf a'r hydref rydym yn trefnu grwpiau technegol i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y cod. Hefyd ym mis Tachwedd byddwn yn cynnal digwyddiadau i randdeiliaid i drafod ein cynigion wedi’u diweddaru. Ein nod yw cyhoeddi’r cod drafft ar gyfer ymgynghori erbyn diwedd 2019. Bryd hynny byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori pellach i sicrhau bod y cod yn cyflawni ei fwriadau. Byddwn hefyd yn ystyried pa gamau pellach sy'n ofynnol a fydd yn cefnogi gweithredu yn y dyfodol

6.3 Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni ein blaenoriaethau eraill yn y Cynllun Gweithredu Strategol, gyda chefnogaeth y Tîm Awtistiaeth Genedlaethol. Mae’r blaenoriaethau lefel uchel yng nghynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ar gyfer 2019/20 yn cynnwys:

- Mwy o ddefnydd o adnoddau a deunyddiau hyfforddi presennol.
- Hyfforddiant, gan gynnwys datblygu adnoddau newydd.
- Cefnogi datblygiad pellach Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig a’u helpu i ennill eu plwyf.
- Hwyluso rhwydweithiau i hyrwyddo cydweithio a dysgu ar y cyd.
- Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

6.4 Bydd y tîm hefyd yn parhau i ganolbwyntio hefyd ar ddatblygu dull casglu data ymarferol i fesur effaith gwasanaethau awtistiaeth, yn fwy penodol mewn gwasanaethau oedolion. Rydym wedi cyflwyno system casglu data peilot i mewn i'r IAS o fis Ebrill 2019, sydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

*Cynllun Gweithredu Strategol ASD - Cynllun Cyflawni*

6.5 Nid yw’r Cynllun Gweithredu Strategol yn ddogfen sefydlog; rydym wedi darparu diweddariad mewn perthynas â phob un o’r ymrwymiadau a wnaeth yn y Cynllun Cyflawni a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn **Atodiad Un.** Wrth i ni ddatblygu'r cod ymarfer, byddwn yn ystyried yr angen i gyflwyno ymrwymiadau newydd i mewn i'r cynllun cyflawni i barhau â'r gwelliannau yr ydym am eu gweld. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Weithredu ASD i ystyried beth arall y gallwn ei wneud i wella bywydau pobl awtistig er mwyn galluogi cyflwyno'r cod ymarfer. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gweithio ar draws y llywodraeth i sicrhau bod y gwaith datblygu polisi yn gydnaws ag adrannau eraill ac i annog cydweithio, er enghraifft sicrhau aliniad cydnawsedd gyda diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol.

## Atodiad Un:  Diweddariad Cynllun Cyflawni ASD

| Asesu a Diagnosis | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud** | **Cynnydd** |
| Mae plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth yn gallu cael gafael yn brydlon ar wasanaethau atgyfeirio, asesu ac ôl-ddiagnosis sy'n diwallu eu hanghenion. | Sicrhau gwelliannau i wasanaethau asesu a diagnosis plant. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno llwybr asesu diagnostig safonol cenedlaethol i sicrhau cysondeb. | Mae pob bwrdd iechyd yn ymwybodol ac yn defnyddio'r llwybr i lywio eu gwasanaethau. |
| | Gwella'r amser o ran cael gafael ar wasanaethau i blant a phobl ifanc, gyda tharged amser aros newydd o 26 wythnos o'r atgyfeiriad i'r apwyntiad asesu cyntaf | Bydd amseroedd aros yn cael eu cyhoeddi ar Statswales maes o law |
| | Sicrhau bod cynnydd ac amser asesu a diagnosis yn cael eu monitro'n barhaus. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn systemau cynllunio a rheoli perfformiad ffurfiol byrddau iechyd. | Mae amseroedd aros yn cael eu hadrodd yn fisol i Lywodraeth Cymru. O fis Mehefin bydd holl ffigurau'r bwrdd iechyd yn cael eu cynnwys yn fframwaith cyflawni'r GIG. |
| | Sicrhau gwelliannau i wasanaethau diagnostig oedolion drwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys:<br><br>• Datblygu model cenedlaethol a fydd yn cael ei weithredu ledled Cymru.<br>• <br>Monitro ac adrodd ar gynnydd yn barhaus yn erbyn y safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. | • Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig wedi lansio ym Mhowys, Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf a Gwent, Gogledd Cymru, Gorllewin Cymru a Bae'r Gorllewin.<br><br>• Mae IAS yn adrodd i Lywodraeth Cymru yn chwarterol. Mae gwasanaethau IAS wedi datblygu safonau gwasanaeth i fod yn sail i gasglu data monitro. |

| Asesu a Diagnosis | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud** | **Cynnydd** |
| | | • Mae cymuned ymarfer ddiagnostig i oedolion wedi'i sefydlu i gefnogi gwelliannau i wasanaethau diagnostig.<br><br>• Mae safon amser aros i oedolion yn cael ei datblygu a bydd gwersi a ddysgwyd o'r peilot amseroedd aros i blant yn llywio sut y bydd y data ar amseroedd aros yn cael ei gasglu ar gyfer oedolion. |
| | • Bydd gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar gynnydd | • Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno adroddiadau chwarterol trwy'r Gronfa Gofal Integredig |

| Mynd i'r afael ag Anghenion Cymorth | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud** | **Cynnydd** |
| Gall plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr gael gafael ar wasanaethau cyngor ac ataliol i ddiwallu angen sydd heb ei ddiwallu mewn addysg ac iechyd a gofal cymdeithasol | Cyflwyno diwygiad deddfwriaethol i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ym mis Rhagfyr 2016 a monitro cynnydd | Pasiwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gan y Cynulliad ar 12 Rhagfyr 2016, a daeth yn Ddeddf ar 24 Ionawr 2018 yn dilyn Cydsyniad Brenhinol.<br><br>Bydd cyfnod gweithredu o dair blynedd yn cychwyn ym mis Medi 2020, gan ddefnyddio dull graddol gorfodol. Bydd dysgwyr â datganiadau yn barod yn trosglwyddo i'r system newydd o fewn dwy flynedd, a dysgwyr eraill â chynlluniau anstatudol o fewn tair blynedd.<br><br>Bydd y system Anghenion Addysgol Arbennig bresennol wedi'i dileu erbyn haf 2023.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau i gyd-fynd â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn 2019 ac mae ymatebion yn cael eu hystyried. |
| | Datblygu a Chyhoeddi Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf y GIG mewn partneriaeth â rhanddeiliaid gan gynnwys pobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr. | Mae'r ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer a gwerthusiad o'r ymatebion wedi'i gwblhau ac mae'r gweithdai technegol wedi'u trefnu ar gyfer mis Gorffennaf a mis Hydref i drafod lle gellir gwneud gwelliannau.<br><br>Bydd ymgynghoriadau ar y ddogfen ddrafft gyda rhanddeiliaid yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd yn Llandudno a Chaerfyrddin. Rhagwelir y bydd y Cod drafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori ar ddiwedd 2019. |

<table>
<tr><th colspan="3">Mynd i’r afael ag Anghenion Cymorth</th></tr>
<tr><th>Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni</th><th>Yr hyn y byddwn ni’n ei wneud</th><th>Cynnydd</th></tr>
<tr><td rowspan="2"></td><td>Parhau i ddatblygu a chyflwyno ein rhaglen ‘Dysgu gydag Awtistiaeth’ i wella’r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc ar draws y sectorau blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd ac addysg bellach</td><td>Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn parhau gyda'u rhaglenni llwyddiannus mewn Ysgolion Iau ac Ysgolion Uwchradd. Maen nhw’n cyd-gynhyrchu cynlluniau dysgu AB a Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae mwy o fanylion ar gael yn eu hadroddiad blynyddol.</td></tr>
<tr><td>Gwella cyfleoedd i bobl ag awtistiaeth. Mae hyn yn cynnwys monitro’r gwaith o ddarparu rhaglen Ar y Blaen 2 i gefnogi cyflogaeth hirdymor i bobl ifanc ag anawsterau neu anableddau dysgu yn cynnwys ASD</td><td>Mae ystadegau a chanlyniadau ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf wedi cael eu darparu gan y grant Ar y Blaen 2
<table>
<tr><th></th><th>Blynyddoedd 1-2</th><th>B2</th></tr>
<tr><td>Nifer yr atgyfeiriadau</td><td>105</td><td>51</td></tr>
<tr><td>Nifer y Proffiliau galwedigaethol</td><td>105</td><td>42</td></tr>
<tr><td>Nifer ar leoliad di-dâl</td><td>47</td><td>21</td></tr>
<tr><td>Nifer ar leoliad â thâl</td><td>39</td><td>26</td></tr>
<tr><td>Nifer wnaeth ddechrau swydd</td><td>18</td><td>4</td></tr>
<tr><td>Nifer o swyddi a gadwyd</td><td>16</td><td>4</td></tr>
</table></td></tr>
</table>

| Mynd i'r afael ag Anghenion Cymorth | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud** | **Cynnydd** |
| | Llywodraeth Cymru i gymryd camau i ddod yn gyflogwr ystyriol o awtistiaeth drwy gymryd rhan yn y Rhaglen Brwd am Weithio gydag Awtistiaeth | Yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017 - 2020 cytunodd Llywodraeth Cymru: 'Mae Llywodraeth Cymru yn gyflogwr ystyriol o awtistiaeth - Ymgysylltu â staff sydd ag awtistiaeth i nodi pa gamau penodol y gellid eu rhoi ar waith: e.e. system cyfeillio, hyfforddiant ar gyfer timau ac ati.'<br><br>I gefnogi'r cam hwn mae Llywodraeth Cymru wedi;<br>• Sefydlu Rhwydwaith ASD anffurfiol sydd yn rhwydwaith cefnogi cymheiriaid gweithredol. Mae Cyfarwyddwr a nodwyd yn Llywodraeth Cymru fel hyrwyddwr / noddwr anffurfiol. Mae Cyfarwyddwr hefyd wedi cael mentora o chwith gan Gadeirydd y Rhwydwaith ASD. Mae'r Cyfarwyddwr wedi ysgrifennu a chyhoeddi blog i'r holl staff ar ei phrofiad o gael ei mentora o chwith gan gydweithiwr awtistig.<br><br>• Fel rhan o'r hyfforddiant cynefino ar gyfer pob aelod newydd o staff, mae'r Rhwydwaith ASD yn cael ei gyflwyno, ynghyd â'r holl rwydweithiau amrywiaeth staff eraill.<br><br>• Enillwyd Gwobr Amrywiaeth Llywodraeth Cymru 2019 gan Gadeirydd y Rhwydwaith ASD newydd. Yn cydnabod yr effaith mae wedi'i chael ar aelodau staff awtistig a chydweithwyr sydd ag aelodau awtistig yn eu teulu efallai. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi ysgrifennu nifer o flogiau sydd wedi helpu |

| Mynd i'r afael ag Anghenion Cymorth | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud** | **Cynnydd** |
| | | pobl i ddeall sut beth yw bod yn awtistig o ddydd i ddydd. Mae'r blogiau wedi cael eu rhannu a'u cydnabod gan y Gwasanaeth Sifil ehangach a Swyddfa'r Cabinet.<br><br>• Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth 2018 - Cynhaliwyd lansiad y Rhwydwaith ASD a chyhoeddwyd nifer o flogiau gan gydweithwyr. Fel rhan o'r wythnos roedd sesiwn Ymwybyddiaeth Awtistiaeth lle gwnaethom wahodd Blogiwr Awtistiaeth i ddod i'r swyddfa a rhoi ei hanes hi o fod yn awtistig. Erthyglau mewnrwyd a gyhoeddwyd i'r holl staff gyda dyfyniadau o gefnogaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol a Hyrwyddwr y Bwrdd Amrywiaeth. Hefyd yn yr erthygl roedd dolenni i Sgyrsiau TED.<br><br>• Hyfforddiant Cadeirydd Panel AD - Y llynedd, fe wnaeth holl gadeiryddion y Panel AD fynychu hyfforddiant diweddaru. Fel rhan o'r hyfforddiant hwn roedd sesiwn ar addasiadau rhesymol yn ystod y broses recriwtio. Rhoddwyd pwyslais mawr ar Awtistiaeth a sut fel sefydliad y gallwn ni ddenu, recriwtio a chadw aelodau awtistig o staff, a pha addasiadau y gallent ofyn amdanynt a sut y gallwn ddarparu ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i berson awtistig fynd â nodiadau i gyfweliad os byddant yn gwneud cais i wneud hynny. |

| Mynd i'r afael ag Anghenion Cymorth | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud** | **Cynnydd** |
| | | • Canllawiau i Ymwelwyr: Mae canllawiau ystyriol o awtistiaeth bellach wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer unrhyw un a allai ymweld â Pharc Cathays am gyfweliad neu gyfarfod. Mae'n rhoi cyfarwyddyd clir ar gael mynediad i'r adeilad, derbyn a mynd drwy'r broses diogelwch. Mae'r rhain bellach wedi cael eu cyhoeddi ar wefan allanol Llywodraeth Cymru. https://llyw.cymru/ymweld-llywodraeth-cymru-parc-cathays?_ga=2.227704669.1991398874.1561666773-881363834.1547048528 |
| | Gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth ac iddynt ddod yn amgylcheddau gwaith ystyriol o awtistiaeth. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r Rhaglen Brwd am Weithio gydag Awtistiaeth | Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi cyflwyno sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth i amrywiaeth o weithleoedd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Maent wedi nodi datblygiad yn y maes hwn yn eu cynllun gwaith ar gyfer 2019/20, |
| | Darparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol. Bydd yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2016 dros gyfnod o dair blynedd ac yn cynnwys:<br>• Gweithredu gwasanaeth asesu diagnostig safonol i oedolion<br>• Darparu cyngor a chymorth i bawb ag awtistiaeth, yn cynnwys eu teuluoedd a'u gofalwyr<br>• Datblygu pecynnau hyfforddi a chymorth | Bellach, mae gan bob rhanbarth yng Nghymru wasanaeth IAS sy'n cynnig gwasanaeth asesu diagnostig safonol i oedolion. Maen nhw hefyd yn rhoi cyngor a chefnogaeth i'r holl bobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd / gofalwyr. Mae pecynnau hyfforddi a chymorth ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar gael er bod y rhain yn amrywio o ranbarth i ranbarth gan ddibynnu ar aeddfedrwydd y gwasanaeth a'r adnoddau sydd ar gael. |

| Mynd i'r afael ag Anghenion Cymorth | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud** | **Cynnydd** |
| | pellach i weithwyr proffesiynol | |

| Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud** | **Cynnydd** |
| Mae pobl awtistig a'u teuluoedd a'u teulu a'u gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn dweud bod ganddynt fynediad at wybodaeth, cyngor a hyfforddiant da ar awtistiaeth sy'n diwallu eu hanghenion | Sicrhau bod pobl awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn ogystal â gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDinfowales.<br><br>Datblygu strategaeth gyfathrebu yn nodi camau gweithredu penodol erbyn diwedd Ionawr 2017. | Mae crynodeb o adroddiad blynyddol y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (yn **Atodiad Dau**) yn amlygu datblygiad parhaus y wefan a'r nifer cynyddol o bobl sy'n ymweld â'r wefan.<br><br>Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi datblygu a chyhoeddi strategaeth ymgysylltu |
| | Ymgyrch codi ymwybyddiaeth<br><br>Gweithio gyda'r partneriaid, gan gynnwys pobl awtistig a'u teuluoedd a gofalwyr i ddatblygu dull ar y cyd o gyflwyno ymgyrch codi ymwybyddiaeth am awtistiaeth, gan gynnwys mwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth ac adnoddau sydd ar gael gan gynnwys y rhai hynny ar wefan ASDinfoWales. | Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn parhau i weithio'n agos â rhanddeiliaid, gan gynnwys teuluoedd a gofalwyr, mae gwybodaeth fanwl yn eu hadroddiad blynyddol (crynodeb yn **Atodiad Dau**) |
| | Parhau i ddatblygu gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer meysydd blaenoriaeth a nodwyd, i fod ar gael am ddim ar wefan ASDinfowales. Bydd meysydd blaenoriaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol. | Mae'r adroddiad blynyddol y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (crynodeb yn **Atodiad Dau**) yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed o ran datblygu adnoddau newydd a darparu pecynnau presennol. |
| | Datblygu a darparu adnoddau a deunyddiau hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a darparu cymorth i weithwyr proffesiynol ac | Mae adroddiad blynyddol y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (crynodeb yn **Atodiad Dau**) yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed. Mae blaenoriaethau yn cael eu diweddaru yn eu |

| Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud** | **Cynnydd** |
| | eraill sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion ag awtistiaeth. Bydd meysydd blaenoriaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol. | cynllun gwaith blynyddol. |
| | Cydweithio â sefydliadau eraill sy'n ymdrin â materion nad ydynt wedi'u datganoli i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Bydd y rhain yn cynnwys yr heddlu, y gwasanaeth tân, y llysoedd a Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. | Mae adroddiad blynyddol y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (crynodeb yn **Atodiad Dau**) yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed o ran gweithio gyda sefydliadau nad ydynt wedi'u datganoli megis y gwasanaeth tân. |
| | Diweddaru ac ehangu canllawiau ar gyfer gwasanaethau tai ar gefnogi pobl awtistig | Mae'r canllawiau wedi'u cwblhau, a byddant yn cael eu cyflwyno yn ystod 2019/20. Gweler adroddiad blynyddol y Tîm Datblygu Cenedlaethol (crynodeb yn **Atodiad Dau**). |
| | Parhau i gefnogi'r Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD a'r tîm i ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar awtistiaeth i Lywodraeth Cymru, grwpiau proffesiynol a rhanddeiliaid. | Mae'r tîm Awtistiaeth Genedlaethol yn cefnogi cyfarfodydd chwarterol ac yn hyrwyddo rhannu arfer da. |

| Cynllunio, Monitro a Chynnwys Rhanddeiliaid | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud** | **Cynnydd** |
| Bod plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys a chyfrannu at y gwaith o gyflawni'r ASD SAP | Sefydlu grŵp cynghori ar weithredu i fonitro cynnydd a'r gwaith o gyflawni camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu a'r Cynllun Cyflawni. Bydd y grŵp hwn yn cael ei sefydlu cyn 1 Ebrill 2017. | Roedd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Cynghori ar Weithredu ASD ym mis Mawrth 2017, roedd y cyfarfod diweddaraf ym mis Chwefror 2019 |
| | Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd y camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu Strategol a'r Cynllun Cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ac amseroedd aros ar gyfer asesu a diagnosis. | Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol ym mis Mehefin 2018; mae'n cynnwys gwybodaeth am y safon amser aros ASD newydd ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r ail adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2019. |
| | Sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd ar gynnydd y camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu Strategol a'r Cynllun Cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ac amseroedd aros ar gyfer asesu a diagnosis. | Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu adroddiadau chwarterol ar y Gronfa Gofal Integredig sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. |
| | Llywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd y bydd data anabledd yn cael ei ymgorffori yn y ffordd newydd o gasglu data gwasanaethau cymdeithasol. | Bydd y data newydd ar gael erbyn 2020-21 |
| | Gweithio gyda phartneriaid i edrych ar sut rydym yn casglu data ar ganlyniadau ystyrlon i roi gwybod am ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir ac i nodi lle gall fod bylchau parhaus mewn cefnogaeth. | Mae system casglu data wedi cael ei datblygu a bydd yn cael ei threialu ar draws y gwasanaethau IAS o fis Mawrth 2019 |

| Cynllunio, Monitro a Chynnwys Rhanddeiliaid | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud** | **Cynnydd** |
| | | |
| | Sefydlu cofrestr Meddygon Teulu ar gyfer awtistiaeth | Mae trafodaethau cychwynnol wedi cael eu cynnal gyda GPC Cymru a NWIS am sefydlu cofrestr o fewn system glinigol Meddygon Teulu. Mae nifer o faterion wedi cael eu nodi, gan gynnwys ehangder y sbectrwm Awtistiaeth, arbenigwr yn unig all wneud diagnosis, yr angen am ganllawiau clir ar godio, diben y gofrestr a chamau gweithredu fyddai'n ddisgwyliedig gan y practis cyffredinol. Rydym wedi cytuno i gyflwyno i Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cyswllt y bwrdd iechyd er mwyn nodi arweinydd i weithio gyda chydweithwyr polisi ac arbenigwyr Awtistiaeth. |
| | Ymgynghori ar newidiadau i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Rhan 2, Cod Ymarfer mewn perthynas ag Asesu Anghenion y Boblogaeth a Chynlluniau Ardal, gan orchymyn themâu craidd | Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar y thema graidd ar gyfer anabledd dysgu/awtistiaeth i nodi ein disgwyliadau o ran gwasanaethau ar gyfer pobl awtistig. Byddwn yn adolygu asesiadau drafft i sicrhau ystyriaeth ddigonol o ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth. |
| | Monitro'r gwaith o weithredu'r gofynion deddfwriaethol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a chadw'r angen am ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth yn y dyfodol o dan adolygiad. | Cyfrannodd Llywodraeth Cymru at y gwaith o graffu ar y Bil Awtistiaeth (Cymru). Byddwn yn ystyried yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgor craffu yn natblygiad y cod sydd ar ddod o ymarfer a blaenoriaethau gwella gwasanaethau yn y dyfodol yn ofalus. |

# Crynodeb o Adroddiad Blynyddol y Tîm Datblygu Cenedlaethol Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig ynghylch Cynllun Gwaith 2018 – 19

Mae'r cynllun gwaith canlynol ar gyfer 2018/19 yn cynnwys y blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer y Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol a gynhyrchwyd gan y tîm ar gyfer adolygiad a chytundeb Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei atodi gyda rhaglen waith gweithgaredd mwy manwl a chrynodeb cyllideb.

Mae'r Tîm Datblygu Cenedlaethol Anhwylder Sbectrwm Awtistig yn cefnogi darpariaeth y Cynllun Strategol ASA a Chynllun Darparu mewn cydweithrediad â phrif fudd-ddeiliaid. Mae'r tîm wedi gweithio gyda phartneriaid ar draws Cymru mewn ymateb i ymgysylltu ag unigolion awtistig a rhieni a gofalwyr, ynghyd â gweithwyr proffesiynol, i gynhyrchu ystod eang o adnoddau i gynyddu ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac i gefnogi oedolion a phlant awtistig, gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaeth. Mae cynllun gwaith a rhaglen waith 2018/19 yn gyfuniad o'r gwaith hwn ac yn cynnwys yr uchelgais i gyflwyno'r adnoddau ar draws Cymru mewn modd effeithiol gyda chefnogaeth partneriaid a budd-ddeiliaid. Mae'r cynllun gwaith yn adeiladu ar nifer o flynyddoedd o waith ymhlith partneriaid gydag ymrwymiad i gefnogi ac ymateb i anghenion unigolion awtistig a phlant a'u rhieni a'u gofalwyr.

Mae gweithredu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ar draws Cymru yn flaenoriaeth allweddol arall a bydd y tîm yn gweithio gyda'r 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) i gefnogi sefydlu a darparu'r gwasanaethau hyn yn effeithiol er budd unigolion awtistig, plant ag awtistiaeth a'u rhieni a'u gofalwyr yng nghyd-destun gwasanaethau presennol. Mae'r adnoddau y cyfeiriwyd atynt uchod yn sail bwysig i ddarpariaeth y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun gwaith yn seiliedig ar gyfuniad o flaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru; trafodaethau parhaus ac adborth

anffurfiol gan fudd-ddeiliaid; gwerthuso Adroddiad Interim[29] Cynllun Gweithredu Strategol y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac ASA a gwybodaeth a phrofiad y Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol, gan adeiladu ar waith blaenorol a phresennol.

Bydd y cynllun gwaith yn cynnwys adolygiad anffurfiol o rôl a strwythur y Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol a bydd CLlLC yn gweithredu argymhellion/newidiadau gofynnol.

| **1. Cynyddu'r defnydd o ddeunyddiau ac adnoddau hyfforddiant presennol** | | |
|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Cyflawniad/Canlyniad** |
| 1.1 | I gefnogi'r defnydd cynyddol o ddeunydd hyfforddiant a chefnogaeth ASA a ddatblygwyd gan y Tîm Datblygu Cenedlaethol mewn partneriaeth e.e. Dysgu gydag Awtistiaeth, Gweithio gydag Awtistiaeth a Weli Di Fi? | Cyflwyno'r dull hyfforddi'r hyfforddwr mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, grwpiau cymunedol ac yn y blaen.<br><br>Datblygu cynllun gweithredu strategol ar gyfer y rhaglenni Dysgu gydag Awtistiaeth.<br><br>Darparu amrywiaeth helaeth o sesiynau hyfforddiant mewn nifer o sectorau – Gwylwyr y Glannau, yr Adran Gwaith a Phensiynau, colegau, grwpiau chwaraeon, ymddiriedolaethau cymunedol ac yn y blaen.<br><br>Dechrau pennu hyd a lled yr arfarniad o effaith y rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth. |
| 1.2 | Gwneud addasiadau angenrheidiol i adnoddau a deunyddiau gan gymryd i ystyriaeth adborth gan fudd-ddeiliaid a'r sawl sydd wedi defnyddio'r adnoddau | Meithrin cyswllt ag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid i holi eu barn ac awgrymiadau ynglŷn â diwygio'r adnoddau presennol, er enghraifft, diwygiwyd rhai o'r cwestiynau ynglŷn ag Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth ar sail yr ymateb. |

[29] Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA: Adroddiad Interim: Dr Duncan Holtom a Dr Sarah Lloyd Jones, People & Work, ©Crown, 01/03/2018

| | |
|---|---|
| | Casglwyd yr ymatebion ynghyd i fod yn sail ar gyfer rhywfaint o waith y tîm yn 2019/20 a 2019/20.<br><br>Lluniwyd rhestr bostio o randdeiliaid – gan gynnwys oedolion awtistig, rhieni a gofalwyr – er mwyn gallu gweithio ar ddiwygio a golygu'r adnoddau presennol yn drefnus ac yn raddol.<br><br>Mae'r tîm wedi newid ei enw ar sail yr ymateb. |
| 1.3 Parhau i gynnal a datblygu gwefan gwybodaeth ASA Cymru fel adnodd annatod ar gyfer plant awtistig, unigolion awtistig, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. | Mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio'r wefan (*gweler yr ystadegau ym Mhennod 1 o'r Adroddiad Blynyddol*).<br><br>Lluniwyd taflen adnoddau yn benodol i helpu pobl i ddod o hyd i bethau ar y wefan yn haws, ac mae'n cynorthwyo gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phobl awtistig.<br><br>Cafodd cynnwys y wefan ei gynnal a'i ddiweddaru'n gyson. |
| 1.4 Cefnogi rhoi'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar waith fesul cam | Dechreuwyd gwaith ar fapio'r hyfforddiant presennol yn unol â'r fframwaith, ac roedd hynny'n cynnwys: cydweithwyr Iechyd, Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig, gweithwyr proffesiynol Addysg a gweithwyr Gofal Cymdeithasol.<br><br>Gwnaethpwyd y gwaith cychwynnol o ran ystyried achredu adnoddau drwy'r Fframwaith. Wedi'i gysylltu ag oriau Datblygiad Proffesiynol Parhaus. |
| 1.5 Cwblhau pecyn adnoddau Gwasanaethau Brys | Mae'r pecyn hyfforddiant peilot wedi'i gwblhau ac yn barod i'w gyflwyno mewn dwy ardal fraenaru – Heddlu Dyfed Powys a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru – yn 2019/20.<br><br>Datblygwyd y dull hyfforddi'r hyfforddwr fel rhan o lunio'r pecyn. |

| | |
|---|---|
| | Lluniwyd cynllun gweithredu. |
| 1.6 Cefnogi Hyfforddiant Iechyd Meddwl i Oedolion | Mae hyfforddiant iechyd meddwl oedolion ***Aspects*** wedi'i gyflwyno ledled Cymru. |
| 1.7 Cwmpasu gwerthusiad o'r cynllun Dysgu gydag Awtistiaeth | Gwnaethpwyd y gwaith cychwynnol o ran y dull a gynigir, mesur effaith, ardaloedd peilot ac yn y blaen. Mae'r fframwaith a'r dull wedi'u cadarnhau ac fe'u cyflwynir yn 2019-20. |
| | **Am fwy o wybodaeth gweler Penodau 1, 2, 4 ac 8 yn Adroddiad Blynyddol 2018/19.** |

| **2. Hyfforddiant gan gynnwys datblygu adnoddau newydd** | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cyflawniad/Canlyniad** |
| 2.1 Datblygu adnoddau newydd sy'n ymwneud â hyfforddiant rheoli ymddygiad i rieni/gweithwyr proffesiynol | Gwnaethpwyd gwaith cwmpasu cychwynnol ynglŷn â'r materion dan sylw. Cysylltwyd â Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig a oedd wedi darparu hyfforddiant yn benodol ar reoli ymddygiad, i weld faint o bobl oedd wedi gwneud yr hyfforddiant a chael gwybod am unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol. Mae angen mwy o waith ymchwil i'r maes hwn er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiadau'n dyblygu unrhyw ddarpariaeth bresennol, ei fod yn effeithiol ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn sydd ar gael i rieni.<br><br>Mae'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig mewn rhai ardaloedd eisoes yn cyflwyno cyrsiau Rheoli Ymddygiad i Rieni – defnyddir yr ymateb i'r rhain a'r canlyniadau yn sail ar gyfer gwaith yn y maes hwn yn 2019-20 a 2020-21. |
| 2.2 Datblygu adnoddau newydd mewn perthynas â chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd meddwl ac awtistiaeth yn digwydd yr un pryd ymhlith Plant a Phobl Ifanc (o fewn | Gwnaethpwyd gwaith cwmpasu cychwynnol gydag oedolion ifanc awtistig a fu mewn cysylltiad â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd ag oedolion awtistig |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc / timau Addysg – gwaith Powys) | sydd wedi datblygu anawsterau iechyd meddwl hirbarhaus, er mwyn ystyried beth allai fod wedi'u helpu pan ddechreuodd eu trafferthion. Mae'r gwaith wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl gan fod angen amser ar y cyfranogwyr i deimlo'n gyfforddus wrth drafod eu bywydau a'u profiadau.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfodydd â Hywel Dda a Gwasanaethau Niwroddatblygiadol Powys er mwyn ystyried y dull posib a'r drefn o'i gyflwyno.<br><br>Lluniwyd drafft o'r manylion. |
| 2.3 | Datblygu rhaglen mynediad i hamdden – oedolion | Cyflwynwyd hyn drwy'r ymgyrch "Weli Di Fi?" ac mewn partneriaeth â swyddogion arweiniol Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ac Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig. Mae'r tîm hefyd wedi rhoi hyfforddiant i glwb rygbi'r Gweilch, Clwb Pêl-droed Abertawe ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru. |
| 2.4 | Datblygu cefnogaeth ôl-ddiagnostig i rieni / gofalwyr plant awtistig/pobl ifanc ymhellach | Cynhyrchwyd y ffilm ynglŷn â rhieni sy'n ofalwyr – roedd hyn yn cynnwys rhieni, gofalwyr a phobl ifanc awtistig yn ogystal â gweithwyr proffesiynol. Fe gymerodd yn hirach na'r disgwyl i gwblhau'r prosiect oherwydd y cydgynhyrchu, ond roedd yn werth treulio mwy o amser i gael canlyniad da ar y diwedd. |
| 2.5 | Datblygu rhaglen Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith | Cynhyrchwyd ffilm "Beth yw Awtistiaeth?" ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith – wedi'u cydgynhyrchu gyda phobl awtistig, rhieni sy'n ofalwyr a gweithwyr proffesiynol.<br><br>Ffurfiwyd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen drwy Colegau Cymru ac NTF Cymru.<br><br>Paratowyd fersiynau drafft o becynnau adnoddau i weithwyr |

| | |
|---|---|
| | proffesiynol a phobl awtistig. I'w cwblhau a'u cyflwyno yn y flwyddyn academaidd newydd fis Medi 2019. |
| 2.6 Adolygu a datblygu cefnogaeth ôl-ddiagnostig priodol i Oedolion | Mae rhaglen Ôl-ddiagnostig wedi'i chreu gan 21 High Street a Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig (Caerdydd a'r Fro a Gwent). Mae'r Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig wedi rhannu hon â phob Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.<br><br>Mae'r gwaith cwmpasu wedi dechrau o ran y canllawiau presennol i oedolion. Gofynnwyd am ymateb gan rai oedolion awtistig a Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig. Bwriedir gwneud llawer mwy ar hyn yn 2019-20, gan ystyried y cynnwys, y fformat a'r dosbarthiad.<br><br>Mae'r Gymuned Ymarfer wedi gwneud gwaith mapio i weld pa gymorth sydd ar gael ar ôl cael diagnosis, gyda'r nod o rannu arferion gorau a chanfod unrhyw fylchau arwyddocaol. |
| 2.7 Datblygu adnoddau blynyddoedd pellach ymhellach gydag ymgyrch "Ble Mae Teifi?" . | Casglwyd ynghyd gatalog bach o luniau o 'Teifi' i'w defnyddio wrth hyrwyddo Cynllun y Blynyddoedd Cynnar. |
| | **Am fwy o wybodaeth gweler Penodau 1, 2, 3, 4, 5, 6 a 7 yn Adroddiad Blynyddol 2018/19.** |

| 3. Cefnogi datblygiad pellach ac ymgorffori Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cyflawniad/Canlyniad** |
| 3.1 Cefnogi gweithrediad effeithiol y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ar draws Cymru ymhellach | Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn arwain cyfarfodydd ac mae'r tîm wedi hwyluso'r Gymuned Ymarfer gydol y flwyddyn gan ganolbwyntio'n bennaf ar weithredu a darparu'n effeithiol.<br><br>Mae'r Tîm Cenedlaethol wedi datblygu hyfforddiant yn benodol ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ac fe'i cyflwynir ledled Cymru.<br><br>Mae pob un o'r saith Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Nghymru wedi'i ddatblygu ac yn weithredol. |
| 3.2 Adolygu a diweddaru'r canllawiau ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig | Adolygwyd a diwygiwyd y canllawiau ar y cyd â swyddogion arweiniol Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig. |
| 3.3 Datblygu a chefnogi gweithrediad system monitro data / perfformiad | Datblygwyd set ddata allweddol a gaiff ei chyflwyno yn 2019-20 gyda chymorth Data Cymru. *Rhaid sylweddoli y bydd angen llawer iawn o adnoddau ac amser i gyflawni'r cytundeb hwn â swyddogion Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig.*<br><br>Mae'r dull 'Seren Ddeilliannau' o fesur cynnydd ar waith ymhob Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Mae rhaglen lawn o hyfforddiant wedi'i chomisiynu a'i darparu. Mae dull o fesur deilliannau Cymru gyfan yn cael ei ddatblygu a'i weithredu ar hyn o bryd.<br><br>Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â chyfres o ymyriadau grŵp a dulliau mesur deilliannau y bwriedir eu cyflwyno yn 2019-20. |

| | |
|---|---|
| 3.4 Adolygu'r Fframwaith Adrodd ar ICF | Cwblhawyd hyn fel rhan o'r gwaith ar y set ddata a'r fframwaith adrodd, ac fe gaiff ei gynnwys yn y system honno. |
| 3.5 Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ar draws Cymru | Mae pethau fel cylch gwaith a chefndir y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn rhan o'r cyflwyniad craidd yr ydym wedi'i ddarparu mewn cynadleddau, Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol, Fforymau Penaethiaid Cynhwysiad, ac ymhob digwyddiad codi ymwybyddiaeth neu gwrs hyfforddiant yr ydym wedi'i gynnal.<br><br>Mae'r Swyddogion Arweiniol Cenedlaethol wedi meithrin cyswllt â nifer o Awdurdodau Lleol yn 2018/19 ymhob rhanbarth. |
| | **Am fwy o wybodaeth gweler Penodau 1, 2, 3 a 10 yn Adroddiad Blynyddol 2018/19.** |

| **4. Hwyluso Rhwydweithiau** | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cyflawniad/Canlyniad** |
| 4.1 Hwyluso Fforwm Arweinwyr ASA Cenedlaethol | Cyfarfu'r Fforwm bedair gwaith yn 2018/19 – cynhaliwyd un sesiwn fel cyfarfod ar y cyd gyda Swyddogion Arweiniol Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig er mwyn rhannu ymarfer. Lluniwyd cynllun gwaith pendant ar gyfer y flwyddyn, er mwyn ymchwilio i faterion fel:<br>○ Rôl Swyddogion Arweiniol Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig<br>○ Y Bil Awtistiaeth<br>○ Y Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth<br>○ Sut i gyflwyno'r adnoddau mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy<br>○ Rhannu gwybodaeth ac arferion da. |

| | |
|---|---|
| 4.2 Hwyluso Rhwydwaith Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol | Cyfarfu'r Rhwydwaith bedair gwaith yn 2018/19 – cynhaliwyd un sesiwn fel cyfarfod ar y cyd gyda Swyddogion Arweiniol Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig er mwyn rhannu ymarfer. Lluniwyd cynllun gwaith pendant ar gyfer y flwyddyn, er mwyn ymchwilio i faterion fel:<br>○ Y set ddata<br>○ Rhyngweithio â gwasanaethau presennol<br>○ Gweithdrefnau adrodd<br>○ Mesur canlyniadau<br>○ Materion a phryderon ynglŷn â'r dull Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig<br>○ Arfer orau. |
| 4.3 Datblygu a sefydlu cymuned ymarfer ar gyfer diagnosis oedolion a gweithredu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | Sefydlwyd y Gymuned Ymarfer. Drwy waith y grŵp cytunwyd ar y pethau canlynol:<br>○ Llwybrau diagnostig i oedolion<br>○ Safonau ansawdd cytûn<br>○ Cymorth ar ôl diagnosis<br>○ Canllawiau<br>○ Llwybrau atgyfeirio.<br><br>Mae'r grŵp hefyd wedi rhannu arfer orau, wedi cyfrannu at waith ymchwil ac wedi dysgu o'r gwaith ymchwil diweddaraf gan amrywiaeth o brifysgolion ac unigolion.<br><br>Wedi creu lle effeithiol i rannu profiadau, trafod materion a chynnig ffyrdd o ddatrys problemau. |
| 4.4 Datblygu ymgysylltiad gyda darparwyr tai er mwyn amlygu materion penodol i'w hystyried wrth ddarparu tai ar gyfer pobl awtistig (sector tai cymdeithasol a PRS) a sicrhau bod darparwyr tai yn gallu diwallu unrhyw anghenion penodol gan bobl awtistig. | Ffurfiwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys oedolion awtistig, rhieni sy'n ofalwyr a gweithwyr proffesiynol (Tai ac Awtistiaeth).<br><br>Diwygiwyd y canllawiau Tai sy'n gysylltiedig â Deddf Tai (Cymru). |

| | |
|---|---|
| | |
| | **Am fwy o wybodaeth gweler Penodau 1, 2, 5, 7, 9, 10 ac 11 yn Adroddiad Blynyddol 2018/19.** |

| **5. Gweithio gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru** | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cyflawniad/Canlyniad** |
| 5.1 Datblygu strategaeth ymgysylltu, gyda ffocws ar gyd-gynhyrchu | Cydgynhyrchwyd strategaeth ymgysylltu a chyfranogi, a lansiwyd y fersiwn drafft yn y digwyddiad Anelu am Aur a gynhaliwyd yn y Senedd ar Ddiwrnod Awtistiaeth y Byd.<br><br>Cyhoeddwyd y strategaeth ar ASDinfowales er ymgynghoriad.<br><br>Lluniwyd rhestr bostio o bobl awtistig a rhiant-ofalwyr sy'n dymuno cymryd rhan yn y broses. Caiff y rhestr honno ei diweddaru a'i diwygio drwy'r amser gan ddibynnu ar y gwaith. |
| 5.2 a. Cefnogi datblygiad Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar ddarpariaeth awtistiaeth yng Nghymru a gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid eraill i weithredu gofynion y Cod pan fydd yn cael ei gyhoeddi<br>b. Cynnal trosolwg ar gynnydd y Bil Awtistiaeth a chefnogi ei ddatblygiad, os yn briodol, drwy amlygu'r gwaith parhaus cadarnhaol ar awtistiaeth ar draws Cymru. | a) helpodd y tîm i hwyluso digwyddiadau ymgynghori ar gyfer y Cod Ymarfer<br>b) helpodd y tîm i gydlynu'r ymateb i'r Bil Awtistiaeth arfaethedig – roedd hynny'n cynnwys rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. |
| 5.3 Sefydlu a hwyluso trefniadau llywodraethu newydd/bwrdd ymgynghori i oruchwylio darpariaeth gwaith y tîm Datblygu Cenedlaethol a chymell gwelliannau i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ASA | Mae'r gwaith cychwynnol wedi dechrau o ran sefydlu'r bwrdd ar grŵp rheoli (drafftio cylch gorchwyl ac ati). |
| 5.4 Datblygu ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar gyfer awtistiaeth yng | Bu hyn yn ganolog i'n holl waith o ran codi ymwybyddiaeth, |

| | |
|---|---|
| Nghymru | hyfforddiant ac ymgysylltu.<br><br>Mae'r tîm wedi rhoi cyflwyniadau mewn amrywiaeth o gynadleddau a digwyddiadau, gan gynnwys y Sioeau Awtistiaeth, y Sioe Addysg digwyddiadau Tai, rhwydweithiau proffesiynol ac yn y blaen. |
| 5.5 Cefnogi a galluogi datblygiad cysylltiadau cryfach rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a gwaith parhaus ar lefelau lleol a rhanbarthol ar awtistiaeth | Mae'r Swyddog Arweiniol Strategol wedi cwrdd â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac wedi rhoi cyflwyniadau ynglŷn â gwaith Awdurdodau Lleol ar lawr gwlad, y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ac awtistiaeth yn gyffredinol. Mae'r gwaith yn dal i fynd yn ei flaen.<br><br>Bu'r tîm yn bresennol mewn digwyddiadau rhanbarthol, grwpiau rhanddeiliaid, grwpiau llywio, diwrnodau cynllunio, diwrnodau codi ymwybyddiaeth ac ati ymhob cwr o Gymru. |
| 5.6 Datblygu cyswllt pellach gyda sectorau eraill i godi ymwybyddiaeth o Wasanaethau Awtistiaeth Integredig a chyflawni prynu i mewn lefel uwch ac ymrwymiad i weithio ar awtistiaeth fel bo'n briodol. | Cyfarfu'r tîm yn gyson â phartneriaid yn y trydydd sector, er enghraifft, y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth a'r Cyfeiriadur Awtistiaeth.<br><br>Mae'r tîm hefyd wedi creu cysylltiadau strategol allweddol ag aelodau etholedig ac uwch-swyddogion mewn Awdurdodau Lleol, uwch-swyddogion Byrddau Iechyd a Phrifysgolion ac ati. Datblygodd y tîm Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â llunio cynllun gwaith ar y cyd sydd wedi'i gytuno gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| 5.7 Cydlynu Cynhadledd Awtistiaeth yng Nghymru mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol a budd-ddeiliaid allweddol eraill. | Cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol yn ystod Wythnos Awtistiaeth y Byd yn stadiwm Liberty, Abertawe. Y thema oedd "Hybu Llesiant Pobl Awtistig". Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd â phobl awtistig, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Fe dalodd y digwyddiad ei holl gostau, a chafwyd nawdd o £14,000 gan bartneriaid yn y sector |

| | |
|---|---|
| | preifat, y sector cyhoeddus a’r trydydd sector. |
| 5.8 Cefnogi cyfnewid arfer da cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol | Parhaodd y gwaith ag Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd ynglŷn â’r Ganolfan Ymchwil i Awtistiaeth, a chrëwyd mwy o gysylltiadau â phartneriaid Ewropeaidd yn yr Eidal, Latfia, Lithwania a Sbaen.<br><br>Enillodd y prosiect SIGNs/y ffilm Parti Pen-blwydd wobr Arloesi a Chael Effaith gan Brifysgol Caerdydd am waith mewn partneriaeth ym maes Iechyd yn 2019, gan gynnwys un wobr ‘Dewis y Bobl’. |
| | **Am fwy o wybodaeth gweler Penodau 1, 2, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn Adroddiad Blynyddol 2018/19.** |

Mehefin 2019

Sara Harvey – Arweinydd Strategol Cenedlaethol dros Awtistiaeth
Wendy Thomas – Arweinydd Proffesiynol Cenedlaethol dros Awtistiaeth

## Atodiad Tri - Geirfa

| | |
|---|---|
| ACT | Associated Community Training Limited |
| ADHD | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd |
| ASD | Anhwylder y Sbectrwm Awtistig |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| ALNET | Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 |
| MDPh | Meysydd Dysgu a Phrofiad |
| CMHT | Timau Iechyd Meddwl Cymunedol |
| Contract Economaidd | Y Contract Economaidd yw'r fframwaith ar gyfer perthynas newydd gyda busnesau sydd am gael mynediad i gyllid, sy'n mynnu bod busnesau'n dangos eu hymrwymiad i dwf, gwaith teg, iechyd a sgiliau gweithwyr cyflogedig a lleihau eu hôl-troed carbon, gan adlewyrchu'r math o ymddygiad busnes y mae nifer o fusnesau llwyddiannus a chyfrifol yn ei arddangos. |
| EWC | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| GP | Ymarferwr Cyffredinol |
| GPC Cymru | Contract Ymarferwr Cyffredinol |
| IAS | Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig |
| ICF | Cronfa gofal integredig |
| AGA | Addysg Gychwynnol i Athrawon |
| ALl | Awdurdod lleol |
| LDILP | Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau |
| LHB | Bwrdd iechyd lleol |
| LwA | Dysgu gydag Awtistiaeth |
| NAT | Y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol |
| ND | Niwroddatblygiadol |
| NWIS | Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru |

| | |
|---|---|
| PHW | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| ReACT | Rhaglen o gyllid ar gyfer hyfforddiant i unigolion sy’n wynebu colli swydd i ennill sgiliau newydd a dod o hyd i gyflogaeth. |
| RPB | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Model Cymdeithasol o anabledd | Mae’r Model Cymdeithasol yn dal nad yw person yn ‘anabl’ oherwydd eu nam, cyflwr iechyd, neu’r ffyrdd y gallant fod yn wahanol i’r hyn sy’n cael ei ystyried yn gyffredin fel y ‘norm’; yn hytrach na hynny, y rhwystrau corfforol ac agweddol mewn cymdeithas - rhagfarn, diffyg addasiadau mynediad ac allgau systemig - sy’n anablu pobl. |
| T4CYP | Law yn Llaw at blant a phobl ifanc |
| Sgyrsiau TED | Mae Sgyrsiau TED yn fideos dylanwadol gan siaradwyr arbenigol |
| WCCIS | System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Cymru’n Gweithio | Mae Cymru’n Gweithio yn cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru, ac yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop |